

# Casglu barn y cyhoedd ynglŷn ag opsiynau posibl ar gyfer dyfodol cyfansoddiadol Cymru

## Canfyddiadau'r ymchwil ansoddol ystyriol derfynol: barn ynglŷn â'r tri opsiwn a ffefrir gan y Comisiwn ar gyfer Cymru


Paratowyd ar gyfer
**Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru**

Paratowyd gan
**Beaufort Research**



**Awst 2023**


Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru
The Independent Commission on the Constitutional Future of Wales

beaufortresearch

# Casglu barn y cyhoedd ynglŷn ag opsiynau posibl ar gyfer dyfodol cyfansoddiadol Cymru

*Canfyddiadau'r ymchwil ansoddol ystyriol derfynol: barn ynglŷn â'r tri opsiwn a ffefrir gan y Comisiwn ar gyfer Cymru*

Comisiynwyd y gwaith hwn gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru. I gael rhagor o wybodaeth, ewch at https://www.llyw.cymru/y-comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru

**Beaufort Research,** 2 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG
029 2037 8565, enquiries@beaufortresearch.co.uk, www.beaufortresearch.co.uk
Cysylltiadau'r asiantaeth: Fiona McAllister, Adam Blunt, Catrin Davies

Oni chytunir fel arall, erys yr hawlfraint ar ganfyddiadau'r astudiaeth hon yn eiddo i Beaufort Research Ltd ac ni cheir dyfynnu, cyhoeddi nac atgynhyrchu'r canfyddiadau heb gymeradwyaeth y cwmni ymlaen llaw.

Dim ond ar sail anghywirdeb neu gamgyflead y bydd cymeradwyaeth i ddyfynnu neu gyhoeddi'n cael ei gwrthod.

Wrth gyhoeddi unrhyw ganfyddiadau gyda chymeradwyaeth, rhaid nodi: Beaufort Research Ltd fel y darparwr, maint y sampl a dyddiadau'r gwaith maes.

© Beaufort Research Ltd 2023

Cynhyrchwyd yn unol ag ISO20252

## Cynnwys

1. Crynodeb gweithredol .... 4
2. Sefyllfa a chefndir y gwaith .... 7
3. Amcanion a dull yr ymchwil .... 8
3.1 Amcanion yr ymchwil .... 8
3.2 Dull a sampl yr ymchwil .... 8
3.3 Canllawiau trafod, dadansoddi a llunio adroddiad .... 9
4. Ddewisiadau ar y cyfan .... 11
5. Barn ynglŷn â chryfhau a diogelu datganoli .... 14
5.1 Trosolwg .... 14
5.2 Manteision a oedd yn sefyll allan i gyfranogwyr gyda chryfhau a diogelu datganoli .... 15
5.3 Anfanteision a oedd yn sefyll allan i gyfranogwyr gyda chryfhau a diogelu datganoli .... 17
6. Barn ynglŷn â strwythur ffederal .... 22
6.1 Trosolwg .... 22
6.2 Manteision a oedd yn sefyll allan i gyfranogwyr gyda strwythur ffederal .... 23
6.3 Anfanteision a oedd yn sefyll allan i gyfranogwyr gyda strwythur ffederal .... 26
7. Barn ynglŷn ag annibyniaeth .... 28
7.1 Trosolwg .... 28
7.2 Manteision a oedd yn sefyll allan i gyfranogwyr gydag annibyniaeth .... 30
7.3 Anfanteision a oedd yn sefyll allan i gyfranogwyr gydag annibyniaeth .... 33
8. Opsiynau eraill yn lle'r tri a drafodwyd .... 37
9. Sut i gynnwys ac ymgysylltu'n fwy â'r cyhoedd .... 38
9.1 Cynyddu ymgysylltiad .... 38
9.2 Helpu cyfranogwyr i ddatblygu barn fwy gwybodus .... 39
Atodiad .... 41

# 1. Crynodeb gweithredol

## Cyflwyniad

Mae'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru'n ymgysylltu â lleisiau cyhoeddus a dinesig Cymru i ganfod barn a chasglu syniadau i fwydo i mewn i'r gwaith o baratoi adroddiad ar yr opsiynau posibl ar gyfer dyfodol cyfansoddiadol Cymru.

Rhoddwyd comisiwn i Beaufort Research i fwydo i mewn i'r broses hon gan ddefnyddio ymchwil ansoddol a meintiol. Yn ei adroddiad interim, nododd y Comisiwn dri opsiwn a ffefrir ar gyfer sut y gallai Cymru gael ei rhedeg yn y dyfodol: **datganoli wedi'i gryfhau a'i ddiogelu, strwythur ffederal,** ac **annibyniaeth**. Cafodd Beaufort orchwyl i gasglu adborth ansoddol gan aelodau'r cyhoedd ar y tri opsiwn posibl hyn.

Roedd y cam ymchwil ansoddol terfynol hwn yn cynnwys wyth sesiwn ystyriol[1] wyneb-yn-wyneb ledled Cymru, gyda 112 o gyfranogwyr yn cymryd rhan ar y cyfan o gymysgedd eang o gefndiroedd a chyda lefelau amrywiol o ddealltwriaeth am y pwnc a chynefindra ag ef ar ddechrau'r broses ymchwil. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng diwedd mis Mai a diwedd mis Mehefin 2023.

Yn wahanol i arolygon meintiol, nid yw ymchwiliad ansoddol, yn ôl ei natur, wedi'i fwriadu i fod yn ystadegol gynrychiolaidd. Mae wedi'i fwriadu i fod yn ddarluniadol a'i gwneud yn bosibl ymchwilio'n fanwl i'r amrywiaeth mewn perthynas â'r pynciau o ddiddordeb.

## Canfyddiadau allweddol

***Y tri opsiwn a ffefrir gan y Comisiwn***

Roedd rhywfaint o gysondeb rhwng yr opsiynau a oedd yn cael eu ffafrio ymhlith cyfranogwyr yn y cam ansoddol a'r arolwg meintiol cenedlaethol gynrychiolaidd ar gyfer sut yr hoffent weld Cymru'n cael ei rhedeg yn y dyfodol. **Datganoli wedi'i gryfhau a'i ddiogelu** oedd fwyaf poblogaidd yn yr arolwg gyda **strwythur ffederal** yn ail ac yna **annibyniaeth**. Yn y cam ansoddol, **datganoli wedi'i gryfhau a'i ddiogelu** oedd yr opsiwn y pleidleisiwyd drosto'n fwyaf mynych ond fe brofodd **strwythur ffederal** yn llai poblogaidd nag **annibyniaeth**.

Roedd cyfranogwyr yn y cam ansoddol wedi cael budd o sawl mis o ymgysylltu ar y pwnc a thrafod manteision ac anfanteision posibl pob un o'r tri opsiwn a ffefrir gan y Comisiwn yn fanwl. Gwelsom, er enghraifft, fod gan rai cyfranogwyr ddiddordeb mewn strwythur ffederal i ddechrau ond eu bod wedi newid eu meddwl wrth drafod ymhellach.

Yn y cam ansoddol terfynol, roedd cyfran sylweddol o hyd nad oeddent yn hoff o unrhyw un o'r tri opsiwn. Fe wnaethon nhw bleidleisio dros y dewis 'rywbeth arall' ac i raddau llai helaeth y dewis 'ddim yn gwybod' a adlewyrchwyd yn yr arolwg meintiol hefyd.

Ar draws yr opsiynau, roedd gwneud penderfyniadau gwell i Gymru a mwy o ymreolaeth yn themâu eang a oedd yn sefyll allan i gyfranogwyr yn y cam ansoddol terfynol hwn fel pethau

[1] Mae ymchwil ystyriol yn canolbwyntio ar safbwyntiau cyfranogwyr ar ôl iddynt gael y cyfle i 'ystyried' y mater(ion) dan sylw. Roedd y sesiynau'n cynnwys archwilio barn ddigymell gyfredol cyn cyflwyno amrywiaeth o wybodaeth a rhoi anogaeth i gyflwyno barn a safbwyntiau gwahanol, gan geisio penderfyniadau mwy ystyriol wedi hynny.

cadarnhaol posibl. Roedd anfanteision posibl yn tueddu i ganolbwyntio ar bethau ymarferol fel costau / cyllid, cymhlethdod, biwrocratiaeth, risg a dryswch.

Er hynny, roedd pryderon am berfformiad Llywodraeth Cymru'n parhau i liwio ambell i farn hefyd ynglŷn â mwy o bwerau i Gymru; ac roedd rhai'n honni y byddai Cymru'n fwy diogel a chryf fel rhan o'r Undeb.

Mae'r tablau canlynol yn rhoi'r manteision a'r anfanteision canfyddedig mwyaf blaenllaw a nodwyd gan gyfranogwyr ar gyfer pob un o'r tri opsiwn a ffefrir gan y Comisiwn.

***Datganoli wedi'i gryfhau a'i ddiogelu***

| Datganoli wedi'i gryfhau a'i ddiogelu: manteision posibl | Datganoli wedi'i gryfhau a'i ddiogelu: anfanteision posibl |
|---|---|
| Byddai'n atal Llywodraeth y DU rhag diystyru penderfyniadau Llywodraeth Cymru | Byddai'n golygu mwy byth o dreuliau a biwrocratiaeth - a sut fyddai Cymru'n ariannu mwy o bwerau? |
| Esblygiad model profedig – ac fe allai weithio fel cam cyraeddadwy at bwerau pellach a'r tu hwnt i hynny | Mae gan Gymru ddigon (neu ormod hyd yn oed) o bwerau fel y mae ac nid yw'n perfformio'n dda |
| Yr opsiwn lleiaf drud, lleiaf cymhleth, lleiaf tarfol, a'r un sy'n dwyn y lleiaf o risgiau. | Byddai mwy o ddatganoli'n golygu mwy o gymhlethdodau a dryswch trawsffiniol |

***Strwythur ffederal***

| Strwythur ffederal: manteision posibl | Strwythur ffederal: anfanteision posibl |
|---|---|
| Byddai'n golygu gwneud penderfyniadau gwell a threfniant tecach i Gymru a'r tu hwnt | Byddai'n rhy gymhleth, yn mynd â gormod o amser ac yn ddrud i'w sefydlu |
| Byddai'n egluro terfynau a chyfrifoldebau pob lefel o lywodraeth a chyda mwy o atebolrwydd | Ni fyddai Lloegr a gwledydd eraill yn dymuno hynny |
| | Byddai gwahanol gyfreithiau neu bolisïau mewn gwahanol ranbarthau'n ddryslyd ac yn achosi rhwygiadau. |
| | Byddai'n anodd cael pob rhanbarth / gwlad i gytuno ar faterion, gan effeithio ar berthnasoedd |

***Annibyniaeth***

| Annibyniaeth: manteision posibl | Annibyniaeth: anfanteision posibl |
|---|---|
| Byddai'n golygu rheolaeth lawn dros benderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru a pholisïau wedi'u teilwra i Gymru | Ni fyddai Cymru'n gallu ariannu ei hun ac mae'n rhy fach i fod yn annibynnol |
| Byddai'n golygu y gallai Cymru wneud cais i ailymuno â'r UE | Byddai'n rhy gymhleth i'w sefydlu e.e. byddai Cymru'n wynebu heriau sylweddol gyda materion trawsffiniol fel arian cyfred, amddiffyn, mewnfudo ac allforion |

| | |
|---|---|
| Gallai Cymru ymdopi'n ariannol pe bai’n annibynnol - byddai'n annog Cymru i dyfu, bod yn fwy arloesol a blaengar | Byddai'n ormod o risg a byddai gormod o bethau anhysbys (e.e. o ran cyllid a safon gwleidyddion i'w gyflawni) |
| Mae gwledydd bychain eraill yn llwyddo i fod yn annibynnol | |

***Y dull ystyriol***

Fe wnaeth y cam wyneb-yn-wyneb olaf hwn, ynghyd â chamau blaenorol, arfogi llawer o gyfranogwyr â'r wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt i fod â barn fwy gwybodus ynglŷn â sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg. Yn ystod y dull ystyriol hefyd gwelwyd llawer o gyfranogwyr yn ymgysylltu’n fwy â'r pwnc ar eu taith gyda ni dros sawl mis. Roedd hyn yn arbennig o wir am rai cyfranogwyr iau a oedd yn teimlo bod y broses wedi agor eu llygaid i bwnc nad oeddent wedi rhoi rhyw lawer o feddwl iddo o'r blaen.

Gyda'r pwyslais ar y tri opsiwn a ffefrir gan y Comisiwn yn y cam olaf hwn, roedd cyfranogwyr yn canolbwyntio ychydig yn fwy ar strwythur, yn hytrach na pherfformiad y llywodraeth, ac yn trafod rhinweddau neu ddiffygion pob un.

Er hynny, roedd rhai a oedd yn mynnu na fyddent yn ystyried strwythurau amgen ar gyfer rhedeg Cymru nes iddynt weld gwelliannau canfyddedig yn y ffordd y mae Cymru'n cael ei rhedeg gan ddefnyddio'r pwerau sydd eisoes ar gael.

Wrth feddwl am ymgysylltu, mae'n werth ychwanegu bod yr arolwg meintiol wedi canfod bod llai na hanner y rhai a holwyd yn teimlo eu bod wedi gweld neu glywed llawer am sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd cyfranogwyr yn y digwyddiadau ansoddol wyneb-yn-wyneb yn galw'n rheolaidd am ymdrechion mwy rhagweithiol i addysgu'r cyhoedd am y mater, gyda rhai’n credu y byddai ysgol a'r cwricwlwm newydd yn sbardun delfrydol ar gyfer gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg.

## 2. Sefyllfa a chefndir y gwaith

Mae'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru'n gorff annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i gynnal sgwrs genedlaethol gyda dinasyddion Cymru am ddyfodol cyfansoddiadol Cymru.

Mae gan y Comisiwn ddau amcan eang. Y cyntaf yw ystyried a datblygu opsiynau ar gyfer diwygio strwythurau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig yn sylfaenol, y mae Cymru'n dal i fod yn rhan annatod ohonynt. Yr ail yw ystyried a datblygu'r holl brif opsiynau blaengar i gryfhau democratiaeth Cymru a chyflawni gwelliannau i bobl Cymru.

Er mwyn helpu i oleuo ei waith, mae'r Comisiwn yn ymgysylltu â lleisiau cyhoeddus a dinesig Cymru i ganfod barn a chasglu syniadau i fwydo i mewn i'r gwaith o baratoi adroddiad ar yr opsiynau posibl ar gyfer dyfodol cyfansoddiadol Cymru.

Ym mis Rhagfyr 2022, fe baratôdd y Comisiwn adroddiad interim yn seiliedig ar ystod o weithgareddau gan gynnwys ei sgwrs genedlaethol a lansiwyd ym mis Mawrth 2022. Mae'r Comisiwn hefyd wedi lansio Cronfa Ymgysylltu Cymunedol i hybu ymwneud gan ystod amrywiol o gymunedau ledled Cymru. Disgwylir i adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ar ddiwedd 2023 a fydd yn cwmpasu'r holl wahanol elfennau o'i waith.

Mae Beaufort wedi cael comisiwn i helpu i gasglu barn y cyhoedd yng Nghymru i oleuo gwaith y Comisiwn ymhellach. Mae'r dull yn cynnwys:

- Sesiynau ystyriol [2] wyneb-yn-wyneb ledled Cymru i archwilio dealltwriaeth a barn pobl ar hyn o bryd
- Ymgysylltu ar-lein â chyfranogwyr o'r sesiynau wyneb-yn-wyneb;
- Arolwg meintiol o sampl gynrychiolaidd o boblogaeth oedolion Cymru;
- Sesiynau ystyriol wyneb-yn-wyneb wedi'u hailgynnull i archwilio tri opsiwn ar gyfer y dyfodol.

Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar y sesiynau ansoddol ystyriol wedi'u hailgynnull, sef cam ansoddol olaf yr ymchwil a gynhaliwyd gan Beaufort.

[2] Mae ymchwil ystyriol yn canolbwyntio ar safbwyntiau cyfranogwyr ar ôl iddynt gael y cyfle i 'ystyried' y mater(ion) dan sylw. Roedd y sesiynau'n cynnwys archwilio barn ddigymell cyfredol cyn cyflwyno amrywiaeth o wybodaeth a rhoi anogaeth i gyflwyno barn a safbwyntiau gwahanol, gan geisio penderfyniadau mwy ystyriol wedi hynny.

# 3. Amcanion a dull yr ymchwil

## 3.1 Amcanion yr ymchwil

Pennwyd y prif amcanion canlynol ar gyfer y cam ansoddol wyneb-yn-wyneb terfynol hwn:

- Hybu trafodaeth ynghylch y tri opsiwn a ffefrir gan y Comisiwn ar gyfer sut y gallai Cymru gael ei rhedeg yn y dyfodol: atgyfnerthu datganoli ('cryfhau a diogelu'), strwythur ffederal, ac annibyniaeth. Mae'r crynodebau a roddwyd i gyfranogwyr i'w gweld isod
- Pwyso a mesur hoff ddewisiadau ar y cyfan ar gyfer sut y dylai Cymru gael ei rhedeg a pham

**Datganoli sydd wedi ei gryfhau a'i sicrhau**

Mae hyn yn golygu sicrhau na fedr Llywodraeth y DU dynnu oddi ar Gymru y pwerau sydd ganddi i wneud ei phenderfyniadau ei hun.
Gallai hefyd olygu ymestyn y cyfrifoldebau sydd gan Gymru - er enghraifft i gynnwys y system gyfiawnder a phlismona.

**Strwythur ffederal**

Mae hyn yn golygu newid gwleidyddol ledled y DU gyfan gyda chyfansoddiad ysgrifenedig sy'n nodi rôl a chyfrifoldebau pob lefel o lywodraeth, gan gynnwys cyrff datganoledig yn Lloegr (yn debyg i'r modd y llywodraethir yr UDA).
Byddai Llywodraeth y DU yn gyfrifol am bolisïau sy'n berthnasol i'r DU gyfan yn unig megis amddiffyn a pholisi economaidd cyffredinol. Byddai gan Loegr ei Senedd ei hun neu seneddau ar wahân efallai ar gyfer gwahanol ranbarthau o Loegr.

**Annibyniaeth**

Mae hyn yn golygu bod Cymru'n dod yn wlad annibynnol. Byddai Cymru'n gwneud ei holl reolau a'i chyfreithiau ei hun, yn casglu trethi ac yn rheoli ei harian ei hun.
Byddai Cymru'n cymryd cyfrifoldeb am bob mater ariannol ac ni fyddai'n dibynnu ar gefnogaeth Llywodraeth y DU.

## 3.2 Dull a sampl yr ymchwil

Fe wnaeth y dull ymchwil ailadrodd y dull a ddefnyddiwyd yn y cam ansoddol ystyriol cyntaf. Roedd yn cynnwys **wyth trafodaeth wyneb-yn-wyneb estynedig** ledled Cymru gyda phob sesiwn yn para tua 2.5 awr. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn bresennol yn y cam terfynol hwn wedi cymryd rhan yn y digwyddiad ansoddol cyntaf a'r ymarfer ymgysylltu ar-lein rhwng y digwyddiadau. Roedden nhw felly wedi bod ar daith o ryw chwe mis gyda'r prosiect.

Dyluniwyd y sampl fwriadus i sicrhau cymysgedd o ryw, oedran, grŵp economaidd-gymdeithasol, a chyfnod mewn bywyd ar draws y trafodaethau.

Roedd cymysgedd hefyd ar draws y sampl a recriwtiwyd o ran faint yr oedd cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn ei wybod am sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg, lefelau ymgysylltu â

gwleidyddiaeth (gan gynnwys y rhai a oedd yn amau a fyddent yn pleidleisio neu na fyddent yn gwybod dros bwy i bleidleisio yn etholiadau nesaf Senedd Cymru) ac ystod o wahanol bleidiau gwleidyddol yn cael eu cefnogi. Hefyd o fewn y sampl roedd siaradwyr Cymraeg, cyfranogwyr o leiafrifoedd ethnig, cyfranogwyr anabl a chyfranogwyr LDHTC+. Ar y cyfan, roedd 112 o bobl yn bresennol ar draws yr wyth sesiwn derfynol. Fe wnaed y gwaith maes rhwng 31 Mai a 28 Mehefin 2023.

### 3.3 Canllawiau trafod, dadansoddi a llunio adroddiad

Y cynnwys allweddol ar gyfer y cam hwn oedd y disgrifiad cryno o bob opsiwn posibl ar gyfer sut y gallai Cymru gael ei rhedeg yn y dyfodol (gweler 3.1) a manteision ac anfanteision posibl cysylltiedig (gweler yr atodiad). Er mwyn cysondeb, roeddent yr un fath â'r rhai a ddefnyddiwyd yn yr arolwg meintiol ac yn y llwyfan ymgysylltu ar-lein blaenorol.

I helpu gyda lefelau ymgysylltu yn y sesiynau, rhoddodd Beaufort gomisiwn i asiantaeth dylunio a chynnwys brand i ddatblygu animeiddiad fideo ar gyfer yr opsiynau yn Gymraeg a Saesneg. Arweiniodd Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn ar ddatblygu'r animeiddiad trwy ddarparu'r sgript a chydweithiodd yn agos gyda'r asiantaeth a Beaufort i ddatblygu'r cynnwys.

Fe ddrafftiodd Beaufort y canllawiau trafod pynciau ar gyfer y sesiynau mewn partneriaeth gyda'r Ysgrifenyddiaeth. Defnyddiodd y sesiynau fideo gan un o Gadeiryddion y Comisiwn fel rhan o'r cyflwyniad. Roedd gwybodaeth brintiedig am yr opsiynau ar gael i gyfranogwyr wrth iddynt gyrraedd hefyd. Cyn rhannu'n grwpiau ar gyfer trafodaeth bellach, pleidleisiodd cyfranogwyr gan ddewis pa opsiwn, os o gwbl, o blith y tri a ffefrir gan y Comisiwn a fyddai orau i Gymru yn eu tyb hwy. Unwaith yr oeddent yn y grwpiau ymneilltuo, a hwyluswyd gan Beaufort, dangoswyd rhan gyntaf yr animeiddiad i'r cyfranogwyr (a oedd yn ymdrin â chryfhau a diogelu datganoli). Dilynwyd hyn gan drafodaeth ynglŷn â manteision ac anfanteision posibl yr opsiwn, yn ddigymell yn gyntaf ac yna gyda manteision ac anfanteision posibl cysylltiedig wrth law. Ailadroddwyd y broses ar gyfer y ddau opsiwn oedd yn weddill.

Ar ôl y drafodaeth hon ac egwyl, gofynnwyd i'r cyfranogwyr bleidleisio eto gan ddewis pa un, os o gwbl, o'r opsiynau fyddai orau i Gymru. Yna cawsant eu rhannu'n grwpiau yn seiliedig ar eu pleidleisiau a gofynnwyd iddynt nodi yn eu grwpiau beth oedd y ffactorau perswadiol a fyddai'n cyfleu'r achos dros yr opsiwn hwnnw orau yn eu tyb hwy. Yn dilyn hynny, cyflwynwyd y ffactorau hyn yn ôl i'r grŵp ar gyfer unrhyw drafod pellach.

Ar ddiwedd y sesiynau, cynigiwyd taflen wybodaeth y gallai'r cyfranogwyr fynd â hi adref gyda hwy a oedd yn mynd i'r afael â rhai o'r cwestiynau yr oeddent wedi'u gofyn i'r Comisiwn yn ystod cam y llwyfan ymgysylltu ar-lein.

Defnyddiwyd dull dadansoddi anwythol lle gwnaeth yr ymchwilwyr gategoreiddio'r data i ddatblygu themâu a ddaeth i'r amlwg o gynnwys y trafodaethau. Cafodd y categorïau a'r themâu eu fframio'n fras o fewn yr amcanion ymchwil allweddol a'r pynciau.

Defnyddir **inc trwm** yn yr adroddiad i nodi themâu a newid pwnc. Mae sylwadau gair-am-air dienw a wnaed gan gyfranogwyr wedi'u cynnwys yn yr adroddiad mewn llythrennau *italig*. Ni ddylid dehongli'r sylwadau hyn fel rhai sy'n diffinio barn pawb. Yn hytrach, maent yn rhoi mewnwelediad i farn unigolion ynghylch y pwyntiau a nodir.

Ar gyfer cyd-destun, rydym yn cynnwys cyfeiriadau yn yr adroddiad at ganfyddiadau ein harolwg meintiol gyda sampl genedlaethol gynrychiolaidd o oedolion sy'n byw yng Nghymru a gynhaliwyd ym mis Mai / Mehefin 2023. Fe'i darperir yn bennaf o fewn y graffig hwn, ar y dde.




# CANFYDDIADAU'R YMCHWIL

## 4. Ddewisiadau ar y cyfan

Er mwyn darparu rhywfaint o gyd-destun ar gyfer yr dewisiadau ar y cyfan a gasglwyd yn ystod y cam ansoddol hwn, canfu'r **arolwg meintiol** fod ychydig dros un ymhob pump o'r oedolion a holwyd yn fodlon ar y sefyllfa fel y mae yng Nghymru; roedd ar oddeutu hanner eisiau rhagor o bwerau neu annibyniaeth, ac roedd ar un ymhob pump eisiau llai o bwerau neu ddiddymu Senedd Cymru (gweler Ffigur 1 isod).


***Ffigur 1: canlyniadau'r arolwg ar hoff ddewisiadau ar gyfer pwerau yng Nghymru***




*Sail: (pawb yn yr arolwg meintiol) 1,596*

Wedyn gofynnodd yr arolwg meintiol yn benodol am y tri opsiwn a ffefrir gan y Comisiwn. Canfu hyn fod **datganoli wedi'i gryfhau a'i ddiogelu** wedi cael ei ddewis yn fwy mynych (36%) na **strwythur ffederal** (23%) ac **annibyniaeth** (18%). Fodd bynnag, ni ddewisodd bron i chwarter (23%) yr un o'r opsiynau hyn (gan ddewis 'rhywbeth arall', 'dim un o'r rhain', a 'ddim yn gwybod'). (Gweler Ffigur 2 dros y dudalen.)

***Ffigur 2: canlyniadau arolwg ar ddewisiadau ar gyfer y tri opsiwn a ffefrir gan y Comisiwn***




*Sail: (pawb yn yr arolwg meintiol) 1,596*


Anogwyd cyfranogwyr yn y digwyddiadau ansoddol ystyriol terfynol i bleidleisio ar ddechrau'r sesiwn i ddynodi pa un, os o gwbl, o'r tri opsiwn a ffefrir gan y Comisiwn, sef **datganoli wedi'i gryfhau a'i ddiogelu**, **strwythur ffederal**, neu **annibyniaeth** oedd orau i Gymru wrth edrych tua'r dyfodol. Roedd ganddynt hefyd yr opsiwn i ddewis 'rhywbeth arall' a 'ddim yn gwybod'. Yna, fe wnaethom ailadrodd y bleidlais gyda hwy ar ôl i ni drafod yr opsiynau mewn mwy o fanylder yn y sesiynau ymneilltuo.

Gan adleisio'r canlyniadau meintiol, roedd cyfranogwyr yn y ddwy bleidlais yn y cam ansoddol yn fwy tebygol o ddewis **datganoli wedi'i gryfhau a'i ddiogelu** dros y ddau opsiwn arall (gweler Ffigur 3 dros y dudalen). **Strwythur ffederal** oedd yr opsiwn lleiaf poblogaidd ond dylid cofio bod cyfranogwyr yn yr ymchwil ansoddol wedi treulio cryn dipyn o amser yn trafod yr opsiynau ac yn archwilio'r manteision a'r anfanteision posibl. Dangosir hyn gan y ffaith bod llai o gyfranogwyr wedi dewis strwythur ffederal ar yr ail bleidlais oherwydd eu bod wedi cael amser i'w drafod.

Yn yr un modd, dewisodd llai o gyfranogwyr 'ddim yn gwybod' yn y bleidlais derfynol, yn dilyn trafodaeth fanylach. Nid oedd cyfranogwyr yn yr arolwg yn gallu cael budd o drafodaeth o'r fath.

Hefyd, dewisodd cyfrannau tebyg yn yr arolwg a'r cam ansoddol opsiynau ar wahân i'r tri strwythur a ffefrir gan y Comisiwn (bron i chwarter). Caiff yr adborth ansoddol gan y rhai a ddewisodd 'rhywbeth arall' ei ddarparu yn adran 8.

***Ffigur 3: canlyniadau pleidleisio o ddechrau a diwedd y sesiynau ansoddol terfynol***




*Seiliau: pleidlais ar y dechrau 110, pleidlais ar ôl trafodaeth 111*

Y pwyslais yn y cam ansoddol terfynol hwn oedd rhoi cyfle i'r cyfranogwyr drafod manteision ac anfanteision posibl y tri opsiwn a ffefrir gan y Comisiwn. Felly, mae'r adrannau sy'n weddill o'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar farn cyfranogwyr ynglŷn â'r tri opsiwn.

## 5. Barn ynglŷn â chryfhau a diogelu datganoli

Yn y bennod hon, rydym yn darparu adborth gan gyfranogwyr ar **gryfhau a diogelu datganoli**, sef yr opsiwn cyntaf a drafodwyd. Rhoddwyd y crynodeb canlynol iddynt i'w hatgoffa, ac fe ddangoswyd yr animeiddiad fideo iddynt hefyd.

**Datganoli sydd wedi ei gryfhau a'i sicrhau**

Mae hyn yn golygu sicrhau na fedr Llywodraeth y DU dynnu oddi ar Gymru y pwerau sydd ganddi i wneud ei phenderfyniadau ei hun.
Gallai hefyd olygu ymestyn y cyfrifoldebau sydd gan Gymru - er enghraifft i gynnwys y system gyfiawnder a phlismona.

### 5.1 Trosolwg




Trwy gyfuniad o'r trafodaethau digymell a'r trafodaethau gyda gwybodaeth gynorthwyol ar gyfer pob opsiwn a'r drafodaeth derfynol wedi hynny, cafodd y ffactorau dros y dudalen (Tabl 1) eu hamlygu gan gyfranogwyr fel cryfderau a gwendidau'r opsiwn i gryfhau a diogelu datganoli yn eu tyb hwy.

Rhoddir y ffactorau'n fras yn nhrefn cyffredinrwydd o'r cam ansoddol hwn ac amlygir y themâu mwyaf blaenllaw mewn inc trwm.

Yn ddiddorol, cafodd dau o'r ffactorau mwyaf blaenllaw yn y cam ansoddol dros gyflwyno'r achos o blaid atgyfnerthu datganoli eu codi'n ddigymell:

- Esblygiad model profedig – a sut y gallai weithio fel cam cyraeddadwy at bwerau pellach a'r tu hwnt i hynny
- Bod yr opsiwn lleiaf drud, lleiaf cymhleth, lleiaf tarfol, a'r un sy'n dwyn y lleiaf o risgiau.

Yn yr un modd, cafodd yr anfanteision posibl mwyaf blaenllaw eu codi'n ddigymell:

- Byddai'n golygu mwy byth o dreuliau a biwrocratiaeth - a sut fyddai Cymru'n ariannu mwy o bwerau?
- Mae gan Gymru ddigon (neu ormod hyd yn oed) o bwerau  fel y mae ac nid yw'n perfformio'n dda

**Tabl 1**

| Datganoli wedi'i gryfhau a'i ddiogelu: manteision posibl | Datganoli wedi'i gryfhau a'i ddiogelu: anfanteision posibl |
|---|---|
| **Byddai'n atal Llywodraeth y DU rhag diystyru penderfyniadau Llywodraeth Cymru** | **Byddai'n golygu mwy byth o dreuliau a biwrocratiaeth - a sut fyddai Cymru'n ariannu mwy o bwerau?** |
| **Esblygiad model profedig – ac fe allai weithio fel cam cyraeddadwy at bwerau pellach a'r tu hwnt i hynny** | **Mae gan Gymru ddigon (neu ormod hyd yn oed) o bwerau fel y mae ac nid yw'n perfformio'n dda** |
| **Yr opsiwn lleiaf drud, lleiaf cymhleth, lleiaf tarfol, a'r un sy'n dwyn y lleiaf o risgiau.** | **Byddai mwy o ddatganoli'n golygu mwy o gymhlethdodau a dryswch trawsffiniol** |
| Byddai'n dwyn sicrwydd o gefnogaeth barhaus gan Lywodraeth y DU | Byddai'n cadw fformiwla ariannu nad yw'n gweithio i Gymru |
| Byddai'n darparu sylfaen fwy sefydlog ar gyfer sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg | Nid oes sylwedd iddo |
| Byddai'n cynnal neu'n hybu gwell perthynas waith rhwng llywodraethau | Byddai'n cael effaith andwyol ar y berthynas rhwng llywodraethau |
| Ymddengys fod cyfiawnder fel pŵer datganoledig yn gweithio i'r Alban | Ni fyddai'n mynd yn ddigon pell e.e. ni fyddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth i ddylanwad Cymru ar lefel y DU |
| | Dylai Cymru barhau i fod â rhyw fath o rwystrau a gwrthbwysau ar ei phenderfyniadau |
| | Dylai Llywodraeth y DU barhau i allu diystyru ar adegau o argyfwng |

Sylwer: mae'r themâu mwy blaenllaw a leisiwyd mewn inc trwm.

### 5.2 Manteision a oedd yn sefyll allan i gyfranogwyr gyda chryfhau a diogelu datganoli

***Byddai'n atal Llywodraeth y DU rhag diystyru penderfyniadau Llywodraeth Cymru***

Roedd y ffactor hwn yn aml yn berswadiol i gyfranogwyr. Ystyrid ei bod yn bwysig iawn na ddylai penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru fod mewn perygl o gael eu gohirio neu eu gwrthdroi gan Lywodraeth y DU. Rhoddwyd yr enghraifft gyda'r sefyllfa yn yr Alban gyda'i chynllun dychwelyd blaendal yn cael ei atal gan Lywodraeth y DU a gostiodd yn ddrud i lawer o fusnesau yn yr Alban yn ôl pob sôn. Hefyd, dadleuai ychydig, beth oedd diben bod â llywodraeth ddatganoledig pe gallai Llywodraeth y DU ddal i ddiystyru ei phenderfyniadau?

> *Mae'n atal llywodraeth ganolog rhag gallu diddymu'r pwerau presennol a roddwyd i Lywodraeth Cymru, y mae'n rhaid i mi gyfaddef yn onest nad oeddwn i'n sylweddoli ei fod yn bosibilrwydd o hyd, ac mae hynny'n bwysig, dyna'r un peth i mi a wnaeth i mi newid fy meddwl. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Doc Penfro)*

> *Wel, 'san ni wedyn yn medru gwneud ein penderfyniadau ein hunain heb iddyn nhw droi o rownd neu rwystro fo. . . . 'Di o jyst ddim yn deg, na'di, os 'di'r bobl sy'n byw yma 'di penderfynu un peth a bod 'na rywun o wlad arall yn deud, 'Na, dach chi'm yn*

*cael’. Mae o'n mynd yn erbyn democratiaeth [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Caernarfon)*

*Wel, y fantais yw bod e'n dod â grym i pobl sy'n byw yng Nghymru, dyfe. Mae 'da ti fwy o lais wedyn. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Aberystwyth)*

Ychwanegodd ambell un, gyda'r llywodraeth gywir mewn grym, y gallai'r opsiwn hwn olygu **gwneud penderfyniadau gwell** i Gymru hefyd.

*Efallai y gallai fod yn well i Gymru pe bai gennym fwy o bwerau a mwy o lais yn yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Fenni)*

Byddai bod â’r sicrwydd hwn hefyd yn creu ymdeimlad o **sefydlogrwydd** a mwy o **hyder** i Gymru, rhagwelai cwpl o gyfranogwyr, oherwydd na allai Llywodraeth y DU ymyrryd â phenderfyniadau. Byddai mwy o atebolrwydd hefyd i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru a fyddai'n rhywbeth i’w groesawu.

*Rwy'n meddwl o bosibl oherwydd os ydych chi'n meddwl y bydd eich penderfyniadau'n cael eu cymryd oddi wrthych chi, efallai na fyddwch chi'n gwneud y penderfyniadau hyn â’ch holl galon. Ar y llaw arall, os ydych chi'n gwybod mai eich cyfrifoldeb chi yn unig ydyw, yna mae'n rhaid i'r penderfyniadau hynny fod yn iawn. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Fenni)*

***Esblygiad model profedig***

Roedd rhai a oedd yn dadlau dros yr opsiwn hwn yn teimlo nad oedd Cymru'n **gwneud yn rhy ddrwg** ar hyn o bryd ac felly y byddai newidiadau cynyddrannol, cymharol fach yn gwneud synnwyr, gan arwain at drefniant gwell. Y model hwn hefyd oedd agosaf at y **sefyllfa fel y mae** yr oedd rhai’n ei ffafrio tra bod eraill yn ei ystyried yn **gam ymlaen** tuag at fwy o bwerau a hyd yn oed annibyniaeth ond mewn ffordd fwy hydrin. Pe bai’n llwyddiannus, gallai helpu i adeiladu'r achos dros annibyniaeth a newid meddyliau, rhagwelai ychydig o gyfranogwyr.

*Rydyn ni'n wedi nodi ei fod yn fodel profedig ac felly ei fod yn rhywbeth sydd wedi bod yn digwydd dros y 24 mlynedd ddiwethaf. Nid yw'r wlad mewn cyflwr rhy wael mewn gwirionedd, felly . . . . os nad yw wedi torri, peidiwch â'i drwsio. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Caerdydd)*

*Hefyd dwi'n meddwl i'r bobl sydd yn meddwl am annibyniaeth a ballu, mae hwnna ella y bridgo'r gap hefyd rhwng y bobl sydd ddim yn credu bod Cymru yn ddigon cry' i bobl sydd isio. 'San ni'n cael mwy o bwerau a bod ni'n cryfhau yna, ella bod hynna'n newid meddylfryd pobl. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Caernarfon)*

***Yr opsiwn lleiaf drud a chymhleth***

Roedd disgwyl i'r model hwn hefyd fod yr **opsiwn lleiaf drud a chymhleth** ac achosi'r lleiaf o darfu. Gwnaed cyfeiriadau at yr heriau ariannol cyfredol sy'n wynebu'r DU trwy’r argyfwng

costau byw, polisi Llywodraeth y DU, a chefnogi'r rhyfel yn yr Wcráin. Doedd pobl 'ddim angen mwy o boen ariannol' a byddai'r opsiwn hwn yn dal i olygu mwy o rym i Gymru.

> *Datganoli llawn (‘devo max’), y ffordd ymlaen, cryfhau a diogelu. Ni fydd yn costio llawer, dyna un o'r pethau pwysicaf. Rydyn ni yng nghanol Brexit, y cyfnod ar ôl COVID, Wcráin, popeth, llywodraeth Geidwadol, does dim angen mwy o boen ariannol arnom ar hyn o bryd, felly mae llai o risg ynghlwm os byddwn yn syml yn sicrhau datganoli cryfach. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Aberystwyth)*

Roedd hefyd yn ymddangos fel yr **opsiwn mwyaf realistig** o'r tri gan na fyddai’n golygu bod angen newidiadau ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Roedd hon yn cael ei hystyried yn ddadl bwerus gan ychydig o gyfranogwyr a wrandawodd ar eraill yn dadlau dros yr opsiwn hwn.

Cydnabu un neu ddau eu bod wedi pleidleisio dros yr opsiwn hwn am eu bod yn **anghyfforddus gyda newid,** ac yn pryderu ynghylch canlyniadau anfwriadol, yn hytrach nag oherwydd eu bod wedi nodi ffactorau cadarnhaol o'i gymharu ag opsiynau eraill.

Roedd datganoli wedi’i gryfhau a’i ddiogelu hefyd yn ddeniadol ar brydiau oherwydd sefydlogrwydd canfyddedig **cyllid parhaus** gan Lywodraeth y DU a'r sicrwydd o **gefnogaeth gan Lywodraeth y DU** ar rai materion mawr, er enghraifft mewn perthynas ag amddiffyn.

> *Rwy'n credu bod gennych chi gefnogaeth y DU sy'n gryfder mewn gwirionedd ym mhob math o ffyrdd ariannol yn ogystal ag mewn ffyrdd eraill. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Drenewydd)*

> *Byddwn yn dal i gael arian o San Steffan, dyma fyddai'r newid lleiaf ond byddai’n dal i fod yn newid mewn ffordd gadarnhaol, o ystyried yr holl anhrefn sy'n digwydd yn y byd ar hyn o bryd. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Wrecsam)*

***Gwell perthnasoedd gweithio***

Byddai angen i Lywodraeth Cymru, rhagwelai ychydig o gyfranogwyr, gymryd cyfrifoldeb am ei gweithredoedd a'i pherfformiad a pheidio â beio San Steffan pan fyddai materion yn codi a allai **leihau dadleuon** ynghylch pwy oedd ar fai am rai materion.

### 5.3 Anfanteision a oedd yn sefyll allan i gyfranogwyr gyda chryfhau a diogelu datganoli

***Cost a biwrocratiaeth ychwanegol***

Roedd rhai’n meddwl y byddai anfantais yr opsiwn hwn o ran **cost** a **biwrocratiaeth ychwanegol**, ynghyd â phwerau datganoledig pellach, yn cysgodi unrhyw fanteision posibl. Byddai'n ychwanegu mwy o fiwrocratiaeth at drefniant sydd eisoes yn rhy fiwrocrataidd yn llygaid rhai cyfranogwyr. Roedd rhai a oedd yn amheus ynghylch effeithiolrwydd Senedd a Llywodraeth Cymru’n awyddus i bwysleisio'r pwynt hwn. Roedd y crynodeb o'r opsiwn yn cyfeirio at ddatganoli mwy o bwerau megis cyfiawnder o bosibl. Nid oedd yn hawdd i gyfranogwyr ragweld unrhyw fanteision pe bai’r pŵer hwn yn cael ei ddatganoli, ac roedd weithiau'n effeithio ar eu hadwaith cyffredinol i'r opsiwn.

*A fi'n meddwl dylai fe aros [yn San Steffan] achos mae fe jyst yn rhoi lefel ecstra o gymhlethdod mewn i pethau. Justice system, bydde'n rhaid ni setio rhywbeth lan ein hunain? Sai'n siŵr. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Aberystwyth)*

*Maen nhw'n sôn am y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac rwyf wedi edrych ar hynny a'r ymchwil ar-lein ac yn gyntaf ni allaf weld llawer o fanteision wrth bwyso a mesur beth yw'r canlyniadau, y costau, y fiwrocratiaeth a phopeth felly. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Caerdydd)*

Roedd rhai hefyd yn meddwl tybed pa mor effeithiol y byddai Cymru'n gallu ysgwyddo'r cyfrifoldebau ychwanegol hynny a'u **hariannu**.

*Financial structure ar ddiwedd dydd. Mae o i gyd yn dod lawr i hynna os mae Cymru'n gallu neud o fatha'r gwledydd eraill. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Caernarfon)*

***Mae gan Gymru ddigon o bwerau eisoes***
Roedd rhai cyfranogwyr yn ei chael hi'n anodd gweld unrhyw fanteision i'r opsiwn hwn oherwydd bod perfformiad gwael canfyddedig Llywodraeth Cymru'n dal i fod yn flaenllaw yn eu meddyliau. Nid oedd yn ymddangos bod Cymru'n gwneud yn dda iawn gyda'i phwerau presennol felly byddai'n well **aros i weld gwelliannau** cyn ystyried mwy o bwerau datganoledig. Pe bai datganoli'n cael ei atgyfnerthu, roedden nhw'n pryderu y byddai Llywodraeth Cymru'n gwneud mwy o benderfyniadau gwael ac yn gwneud newidiadau dim ond er mwyn newid heb unrhyw graffu gan Lywodraeth y DU.

*Pam ddylai fod gennym fwy o gyfrifoldebau pan na allwn ofalu am yr hyn sydd gennym eisoes? [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Fenni)*

Gyda'r pwynt hwn mewn golwg, roedd ambell un yn credu bod gan San Steffan / Llywodraeth y DU **fwy o arbenigedd** na Senedd / Llywodraeth Cymru.

***Cymhlethdodau trawsffiniol***
Roedd rhai cyfranogwyr yn rhagweld y gallai datganoli rhagor o bwerau arwain at **gymhlethdodau a dryswch**, yn enwedig i'r rhai sy'n byw ar y **ffin rhwng Cymru a Lloegr**. Cofiodd rhai am eu profiadau yn ystod pandemig y coronafeirws gyda rheolau gwahanol yng Nghymru a Lloegr.

*Nid fy mod i yn erbyn datganoli, ond byddwn i'n hoffi eglurder ac ni fyddwn yn hoffi gwthio'n rhy bell ar bethau sydd o ddiddordeb i bob cenedl yn fy marn i, ac nid Cymru yn unig. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Rhondda)*

*Dylai'r system gyfiawnder fod yr un fath ledled y wlad, ni all fod yn wahanol rhwng dau le, nid yw hynny'n gwneud synnwyr o gwbl. Mae'r un peth yn wir am addysg. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Caerdydd)*

Fel a nodwyd yn gynharach, roedd rhai'n teimlo y byddai **parhad ar draws y gwledydd o ran cyfiawnder**, a roddwyd fel enghraifft yn y crynodeb o'r opsiwn ar gyfer pŵer datganoledig

pellach, yn well gan y byddai'n dod ag eglurder ac yn osgoi dryswch. Roedd lleihad yng ngallu Senedd San Steffan i fod â’r gair olaf ynghylch sut y mae pob rhan o'r DU yn cael eu rhedeg, felly, yn broblem i rai.

Efallai y byddai sefyllfaoedd hefyd, ym meddwl ychydig o gyfranogwyr, lle gallai fod angen i Lywodraeth y DU fod â’r **pŵer i benderfynu yn erbyn** llywodraethau gwledydd datganoledig, er enghraifft yn ystod argyfyngau.

***Ni fyddai'n helpu Cymru'n ariannol***

Lleisiwyd y farn gan rai bod datganoli wedi’i gryfhau a’i ddiogelu’n **annhebygol o wella'r sefyllfa** i Gymru o ran ei chyllid. Roedd Fformiwla Barnett yn annheg ar Gymru, meddai rhai, felly ni fyddai dewis atgyfnerthu datganoli ond yn cadw'r math hwn o ddyraniad cyllid na fyddai o fudd i'r genedl. Hefyd, **sut fyddai Cymru'n ymdopi’n ariannol** gyda hyd yn oed mwy o bwerau ac a fyddai ei chyllideb yn cael ei chynyddu i roi cyfrif am fwy o ddatganoli?

> *Mae'r cyfan yn dibynnu ar y gyllideb a roddir yma. Rwy'n credu ein bod ni i gyd yn gwybod mai Cymru sy’n cael y dyraniad lleiaf bob blwyddyn, ac rwy'n meddwl gyda'r penderfyniadau y mae Cymru'n ceisio eu gwneud, yr arian sy'n dal hynny'n ôl. Mae'r syniadau i gyd yno, yr arian sy'n eu dal yn ôl. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Aberystwyth)*

***Diffyg sylwedd canfyddedig***

Nid oedd y datganiadau ynglŷn â’r manteision posibl **yn swnio'n argyhoeddiadol** nac yn gryf i rai cyfranogwyr. Roedd ambell un hefyd yn herio neu'n anghytuno â rhai datganiadau, megis sut yn union y gallai'r opsiwn ddarparu sylfaen fwy sefydlog ar gyfer sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg, ac y byddai atal Senedd a Llywodraeth y DU rhag gwneud newidiadau i bwerau Cymru heb gytundeb Senedd Cymru’n arwain at sefyllfa lle byddai Cymru’n gwneud penderfyniadau dirwystr a gwael. Hefyd, gallai datganiadau a oedd yn sôn am sut y ‘gallent’ fod o fudd i’r wlad swnio'n eithaf gwan.

> *Rwy'n meddwl yn bendant bod angen rhyw fath o ddatganiad cryfach i wneud i ni efallai weld dyfodol yn hynny yn hytrach na . . . . Oherwydd ein bod ni'n seilio hyn ar brofiadau blaenorol o'r hyn sydd eisoes wedi digwydd. Mae angen i ni wybod y bydd wir yn fuddiol i bawb sy'n byw yma. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Caerdydd)*

Lleisiwyd amheuon o bryd i'w gilydd hefyd nad oedd **unrhyw ymwybyddiaeth o unrhyw achosion lle'r oedd Llywodraeth y DU wedi ymyrryd** â phenderfyniadau a wnaed neu gynlluniau a luniwyd gan Lywodraeth Cymru. At hynny, dadleuwyd ei bod yn hynod o **annhebygol** y byddai Llywodraeth y DU yn cymryd unrhyw gamau 'drastig' a oedd yn gwrthdroi cyfreithiau yng Nghymru. Felly nid oedd yr angen i atgyfnerthu datganoli i’w weld yn berswadiol iawn.

***Byddai'n cael effaith andwyol ar y berthynas rhwng llywodraethau***

Byddai mwy o ddatganoli, rhagwelai rhai, yn golygu **mwy o densiwn** a pherthnasoedd gweithio dirywiol rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU gyda llai o dir cyffredin. Roedd dryswch a gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr ynghylch rheolau COVID yn dal yn eithaf ffres ym meddyliau rhai cyfranogwyr. Yn ystod y pandemig, roedd wedi teimlo fel eu bod yn ceisio sgorio pwyntiau gwleidyddol yn hytrach na gwneud yr hyn oedd orau i'r DU, yn ôl nifer o gyfranogwyr.

Mewn cwpl o achosion, disgrifiodd y **cyfranogwyr** yr Alban fel gwlad a oedd wedi mynd ymhellach na Chymru ar ei thaith ddatganoli ac eto nid oedd y berthynas rhwng Llywodraethau'r Alban a'r DU i'w gweld yn iach iawn.

> *Wel rydych chi'n dal i allu gweld y tensiwn sydd yna rhwng San Steffan a'r Alban ac maent wedi cymryd y camau cryfhau hyn am wn i am eu bod nhw wastad ychydig bach pellach ar hyd y llwybr [datganoli]. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Drenewydd)*

Roedd rhai felly'n credu bod y DU **yn well ei byd yn unedig** (e.e. gyda phrofiad y pandemig mewn golwg) ac nid oeddent yn meddwl y byddai'r opsiwn hwn yn arwain at sylfaen fwy sefydlog o ran sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg.

> *Rwy'n gweld Cymru, gan edrych yn ôl unwaith eto ar yr hyn sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf, fel gwlad sy'n cael ei rhedeg ar wahân i Lywodraeth y DU i raddau helaeth ac rwy'n teimlo fy mod am iddi fod yn fwy o un uned yn hytrach nag yn rhanedig. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Fenni)*

Hefyd, daeth ychydig o gyfranogwyr i'r casgliad bod ar Gymru angen **arweinwyr cryfach**, pe bai'n mynd i gael mwy byth o bwerau fel y gallai wrthsefyll Llywodraeth y DU yn fwy cadarn pan fo angen.

***Ni fyddai'n mynd yn ddigon pell***

Gan adeiladu ar y pwynt ynglŷn â materion ariannu a godwyd uchod, roedd nifer fach o gyfranogwyr yn teimlo na fyddai datganoli wedi'i gryfhau a'i ddiogelu'n gwneud rhyw lawer i Gymru. Er enghraifft, byddai'r opsiwn hwn yn parhau i olygu ansicrwydd i Gymru gan eu bod yn disgwyl y byddai Llywodraeth y DU yn dal i ddod o hyd i ffyrdd o benderfynu yn erbyn Llywodraeth Cymru. Roedd achosion diweddar o benderfynu yn erbyn Llywodraeth yr Alban yn pwysleisio'r ansicrwydd hwn i un cyfranogwr. Hyd yn oed pe bai datganoli wedi'i atgyfnerthu, nid oedd y cyfranogwr yn meddwl y byddai Llywodraeth y DU yn dangos unrhyw ddiddordeb mewn pwerau pellach i Gymru, er gwaethaf ei dealltwriaeth bod angen datganoli cyfiawnder er mwyn sicrhau canlyniadau tecach i ddinasyddion Cymru yn y system.

> *Fy ngwrthwynebiad i [yr opsiwn hwn] fyddai bod angen newid drastig, mae angen newid drastig yn y DU gyfan, ac os nad ydym yn dechrau credu mewn gwerthoedd a phobl a'r holl bethau hynny, nid oes diben gwario arian ar unrhyw beth arall. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Doc Penfro)*

*Dywedodd yr adroddiad yn unfrydol fod anghysonderau enfawr o ran tegwch i Gymru a bod y math o ddedfrydau a gawn, y lleoedd y mae pobl yn cael eu carcharu, bod anghysonderau enfawr ac y dylai fod gennym ein system gyfiawnder ein hunain. Nawr fel adroddiad ar gyfer y llywodraeth, adroddodd wrth y llywodraeth y dylai fod gennym ein cyfundrefn ein hunain ac y dylid ei datganoli ond nid ydynt wedi gwneud unrhyw beth am y peth. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Rhondda)*

Ychwanegodd cyfranogwr arall, o dan y model hwn, y byddai Cymru'n dal i fod **heb ryw lawer o ddylanwad** dros benderfyniadau a wneir ar lefel y DU sy'n effeithio ar Gymru, er enghraifft gyda'r cynnydd mewn credyd cynhwysol yn ystod y pandemig yr oedd ar Gymru eisiau ei gadw. Rhoddwyd y gostyngiad yn Aelodau Seneddol Cymru trwy newidiadau i ffiniau fel rheswm pellach dros amau a fyddai'r opsiwn hwn yn gwneud rhyw lawer o wahaniaeth.

## 6. Barn ynglŷn â strwythur ffederal

Mae'r bennod hon yn ymdrin â barn cyfranogwyr ynglŷn â **model ffederal** i Gymru, sef yr ail opsiwn a gyflwynwyd. Cawsant grynodeb eto i'w hatgoffa, a dangoswyd iddynt yr adran berthnasol o'r animeiddiad fideo.

**Strwythur ffederal**

Mae hyn yn golygu newid gwleidyddol ledled y DU gyfan gyda chyfansoddiad ysgrifenedig sy'n nodi rôl a chyfrifoldebau pob lefel o lywodraeth, gan gynnwys cyrff datganoledig yn Lloegr (yn debyg i'r modd y llywodraethir yr UDA). Byddai Llywodraeth y DU yn gyfrifol am bolisïau sy'n berthnasol i'r DU gyfan yn unig megis amddiffyn a pholisi economaidd cyffredinol. Byddai gan Loegr ei Senedd ei hun neu seneddau ar wahân efallai ar gyfer gwahanol ranbarthau o Loegr.

### 6.1 Trosolwg

Mae Tabl 2 dros y dudalen yn tynnu sylw at y ffactorau a oedd yn gyfystyr â manteision ac anfanteision posibl strwythur ffederal yn nhyb cyfranogwyr. Nodwyd llai o fanteision posibl gyda'r strwythur hwn o'i gymharu â'r ddau arall a drafodwyd. Yn gyffredinol, roedd hi'n anos i gyfranogwyr ddeall yr opsiwn hwn yn llawn.

Wedi'i ddewis gan 23% yn yr arolwg meintiol – yr ail gyfran uchaf

Yn wahanol i'r ddau opsiwn arall a drafodwyd, nid oedd y manteision posibl allweddol a nodwyd gan gyfranogwyr mor flaenllaw yn y trafodaethau. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ffaith mai strwythur ffederal oedd yr opsiwn lleiaf poblogaidd ar y cyfan.

Fodd bynnag, roedd consensws eang y byddai strwythur ffederal yn gymhleth, yn mynd â llawer o amser ac yn ddrud i'w sefydlu a'i fod yn dibynnu ar ddyhead cenhedloedd eraill i ddilyn yr un llwybr. Caiff y ffactorau dros y dudalen eu rhoi yn fras yn nhrefn cyffredinrwydd ac amlygir y themâu a oedd ychydig yn fwy blaenllaw mewn inc trwm.

**Tabl 2**

| Strwythur ffederal: manteision posibl | Strwythur ffederal: anfanteision posibl |
|---|---|
| **Byddai'n golygu gwneud penderfyniadau gwell a threfniant tecach i Gymru a'r tu hwnt** | **Byddai'n rhy gymhleth, yn mynd â gormod o amser ac yn ddrud i'w sefydlu** |
| **Byddai'n egluro terfynau a chyfrifoldebau pob lefel o lywodraeth a chyda mwy o atebolrwydd** | **Ni fyddai Lloegr a gwledydd eraill yn dymuno hynny** |
| Gall arwain at well perthnasoedd gweithio | **Byddai gwahanol gyfreithiau neu bolisïau mewn gwahanol ranbarthau'n ddryslyd ac yn achosi rhwygiadau.** |
| Ni fyddai'n rhaid i Gymru ofalu am bob maes polisi - a byddai'n darparu rhywfaint o gysondeb ar draws y gwledydd | **Byddai'n anodd cael pob rhanbarth / gwlad i gytuno ar faterion, gan effeithio ar berthnasoedd** |
| Mae enghreifftiau cadarnhaol o strwythurau ffederal yn bodoli mewn mannau eraill | Nid yw'r Deyrnas Unedig i'w gweld yn ddigon mawr i fabwysiadu system ffederal |
| | Gallai fod yn anos byth i Gymru fod â llais gyda rhanbarthau a fyddai'n cystadlu yn ei herbyn yn Lloegr |
| | Gormod o bethau anhysbys ynghylch yr hyn a fyddai'n cael ei reoli gan Lywodraeth y DU i allu ffurfio barn glir |

Sylwer: mae'r themâu mwy blaenllaw a leisiwyd mewn inc trwm.

## 6.2 Manteision a oedd yn sefyll allan i gyfranogwyr gyda strwythur ffederal

***Gwneud penderfyniadau gwell a threfniant tecach i Gymru a'r tu hwnt***

Roedd rhai'n credu y byddai strwythur ffederal yn sicrhau **prosesau penderfynu gwell a thecach, wedi'u teilwra'n fwy** i Gymru yn ogystal â rhanbarthau ffederal eraill oherwydd y cynnydd mewn ymreolaeth. Byddai sicrwydd hefyd y byddai'n atal Senedd a Llywodraeth y DU rhag gwneud newidiadau i bwerau Cymru heb gytundeb Senedd Cymru.

> *Ar hyn o bryd, it's a bit of a power struggle. O leia' os 'di'r pedwar on an even keel, 'sa neb yn uwch na'r llall, ella fydda hynna'n golygu fwy o weithio'n well hefo'i gilydd rather than, 'I'm telling you what to do'. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Y Rhondda)*
>
> *Doeddwn i ddim wir yn ei ddeall nes i mi weld y fideo, ond mae'n esbonio, felly mae'n ymddangos y byddai gennych chi lawer mwy o bwerau gyda hynny. . . Byddai'n rhoi llawer mwy o rym i chi yn eich gwlad eich hun. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Doc Penfro)*

Mewn ychydig o achosion, roedd cyfranogwyr yn meddwl tybed **a ellid rhannu Cymru ei hun yn ffederal** fel rhan o'r opsiwn hwn, er enghraifft gyda rhanbarthau Gogledd a De Cymru. Gallai hyn olygu penderfyniadau wedi'u teilwra'n fwy i ddiwallu anghenion mwy rhanbarthol yr oedd rhai cyfranogwyr wedi'u codi fel pryderon yng nghamau blaenorol yr ymchwil.

Byddai'r **gost a'r ymdrech yn werth chweil,** parhaodd un grŵp a oedd yn cyfleu'r achos dros y strwythur hwn, gan y byddai'n darparu trefniant tecach drwyddi draw.

> *Unrhyw beth sydd wedi'i nodi â'r geiriau, 'Byddai'n anodd ac yn costio llawer o arian', dyna fyddai'n arwain at y broses orau mwy na thebyg. Mae'n rhaid i chi fuddsoddi, rhaid i chi fuddsoddi mewn pobl er mwyn i bobl fyw a gweithio'n well gyda'i gilydd. . . Mae arnom angen rhywbeth sy'n gweithio, rhywbeth sy'n deg, rhywbeth sy'n dryloyw ac mae angen i bobl yn y llywodraeth gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u penderfyniadau, a dyna'r ffordd fwyaf eglur y gallem weld hynny'n gweithio. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Doc Penfro)*

Gallai olygu system decach **yn ariannol** ar draws y gwahanol ranbarthau a gwledydd hefyd, awgrymodd ychydig o gyfranogwyr.

> *Fy nealltwriaeth i o'r fideo, gyda'r strwythur ffederal, yw y byddem yn ceisio bod ychydig yn decach ynghylch ble'r oedd yr arian yn cael ei rannu. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Drenewydd)*

Mynegwyd barn hefyd y byddai'r trefniant hwn yn helpu i roi mwy o lais i bobl yn holl ranbarthau gwahanol y DU.

> *'Sa fo'n rhoi mwy o lais i ni. Ar y funud dan ni'n cael ein boddi yn San Steffan.' [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Caernarfon)*

Fel gwrthddadl yn erbyn y farn y byddai'n amhosibl i'w gyflawni'n wleidyddol (a ddisgrifir yn 6.3), roedd nifer fach o'r farn y **gallai fod gan ranbarthau Lloegr a gwledydd datganoledig eraill ddiddordeb** yn yr opsiwn hwn. Gallai rhanbarthau Lloegr y tu allan i'r De Ddwyrain feddwl nad oeddent yn cael digon o gymorth tra gallai'r rhai yn y De Ddwyrain feddwl nad oedd angen iddynt gefnogi'r 'ardaloedd tlotach' â chyllid ffyniant bro, er enghraifft. Efallai y byddai dinasyddion yn Lloegr hefyd yn hoffi'r syniad nad yw ASau'r gwledydd datganoledig yn gallu pleidleisio mwyach ar faterion sy'n ymwneud â Lloegr yn unig.

> *Mae o 'di bod yn boen i bobl Lloegr ers blynyddoedd bod pobl Cymru a'r Alban yn gallu voteio am bethau sy'n mynd ymlaen yn Lloegr. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Aberystwyth)*

***Eglurder cyfrifoldebau a mwy o dryloywder***

Roedd rhai'n cael eu denu at yr opsiwn hwn oherwydd y byddai'n rhoi **mwy o eglurder ynghylch terfynau, rolau a chyfrifoldebau** na'r trefniant presennol. Hefyd, roedd y cyfeiriad yn y manteision posibl cynorthwyol at fwy o dryloywder o ran sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg yn swnio'n apelgar i lond llaw o gyfranogwyr, gan gynnwys rhai a oedd â barn negyddol ynglŷn â Llywodraeth Cymru a'i pherfformiad.

> *Mae ar bawb eisiau tryloywder, onid oes? Ar hyn o bryd, nid wyf wir yn gwybod pwy sydd mewn grym yn Llywodraeth Cymru, nid wyf yn gwybod llawer amdano. Pan sonnir am hynny ar y newyddion, rydych chi'n gwrando arno, dydych chi ddim wir yn teimlo'n rhan ohono. Mae'r cyfan yn gymysg â'r hyn sy'n digwydd gyda Llywodraeth*

*y DU a'r hyn maen nhw'n ei wneud. Rwy'n meddwl, os yw'n fwy tryloyw yng Nghymru, y byddai pobl yn rhoi llawer mwy o sylw. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Caerdydd)*

Roedd rhai yn teimlo y gallai'r eglurder gwell hwn olygu **perthnasoedd gweithio gwell** rhwng llywodraethau oherwydd, gyda chyfansoddiad ysgrifenedig, byddai llai o ardaloedd llwyd a allai arwain at raniadau. Fodd bynnag, roedd rhai yn amau ai felly y byddai mewn realiti, o ystyried goruchafiaeth Lloegr.

*Rwy'n meddwl y gallai'r perthnasoedd gweithio fod yn bwynt oherwydd byddant i gyd yn gwybod beth yw eu rolau a beth allant ac na allant ei wneud, felly byddai hynny'n gwneud pethau'n well. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Wrecsam)*

*Llawer mwy o ymreolaeth i'r gwahanol ardaloedd hyn fynd eu ffordd eu hunain, o bosibl. Ond byddai gennych rywbeth ar y brig o hyd sy'n eu cadw gyda'i gilydd mewn rhai meysydd polisi, ac a fyddai hefyd yn egluro sut y mae'n rhaid iddynt gydweithio i ddod i benderfyniadau cyffredin ar rai pethau. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Doc Penfro)*

Hefyd, byddai bod ag un llywodraeth yn goruchwylio rhai meysydd yn dwyn rhywfaint o **gysondeb**, a oedd yn apelio at ychydig o gyfranogwyr a oedd yn anghyfforddus gyda'r ddau opsiwn arall a drafodwyd.

*Un set o reolau ar draws pawb ac yna fel y dywedwch, darnau bach yma ac acw. . . . Dyna'n union beth wnaeth ddal fy llygad. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Fenni)*

Ar ben hynny, gobeithiai cwpl o gyfranogwyr, gallai llinellau cyfrifoldeb cliriach ac felly mwy o atebolrwydd ddenu **gwleidyddion o safon well**.

*Mewn llywodraethau yn ein gwlad yn gyffredinol mae diffyg cyfrifoldeb amlwg ac roedden ni'n teimlo pe bai gennym strwythur ffederal y byddai gennym rolau a chyfrifoldebau clir a diffiniedig, felly byddai pŵer yn cyfateb â bod yn gyfrifol am y pŵer hwnnw, nid dim ond ei arfer. Roeddem yn gobeithio y gallai hynny arwain at arweinwyr o safon well a oedd yn fodlon derbyn cyfrifoldeb yn y broses. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Doc Penfro)*

***Ddim yn gorfod bod yn gyfrifol am bob maes polisi***

Yn ôl nifer fach o gyfranogwyr, gallai Cymru ddal i wneud ei phenderfyniadau ei hun mewn sawl maes ond gan beidio â gorfod poeni am feysydd polisi 'mwy'. Byddai hyn hefyd yn golygu **sicrwydd** cefnogaeth ar faterion difrifol fel amddiffyn ac felly byddai rhywfaint **o undod** o fewn y DU o hyd.

***Enghreifftiau cadarnhaol o strwythurau ffederal mewn gwledydd eraill***

Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo na ddylid diystyru strwythur ffederal yn llwyr gan ei bod yn ymddangos bod yr Almaen, Awstria a Chanada ill tair yn cael eu rhedeg yn eithaf da.

*Mae yna wladwriaethau ffederal cadarnhaol, fel yr Almaen, ac mae hi'n un o'r gwledydd mwyaf llewyrchus yn y byd, onid yw? [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Wrecsam)*

### 6.3 Anfanteision a oedd yn sefyll allan i gyfranogwyr gyda strwythur ffederal

***Rhy gymhleth, yn mynd â gormod o amser ac yn ddrud i'w sefydlu***

Roedd cyfranogwyr yn credu'n eang y byddai strwythur ffederal yn **rhy gymhleth, yn mynd â gormod o amser ac yn ddrud** i'w sefydlu, gan gynnwys yr holl fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â hynny. Roeddent yn teimlo'n sicr y byddai'r anfanteision hyn yn **gorbwyso unrhyw fanteision posibl**. Eu casgliad oedd na allai'r DU fforddio ei wneud, a bod meysydd pwysicach i wario arian arnynt ar hyn o bryd, er enghraifft y GIG. Roedd y trefniant yn atgoffa un cyfranogwr o'r adeg pan ehangwyd nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru nad oedd ond wedi arwain at ddyblygu tasgau gweithredol yn eu tyb hwy.

*Mae'n mynd i gymryd lot i setio rhywbeth fel'na. A does dim pres. Does bosib. 'Sa well gyda fi bod nhw'n sortio'r NHS allan yn lle bod nhw'n twlu pres mewn i neud structure fel hyn. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Aberystwyth)*

*Rwy'n pryderu eto [am] y fiwrocratiaeth, mae gennym fwy o ACau nawr felly faint o bobl fyddai gennych chi'n rheoli'r system hon yn y dyfodol a pha fudd ydych yn ei gael o'i gymharu â'r fiwrocratiaeth a'r pwerau ychwanegol a phethau felly? [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Caerdydd)*

Roedd ambell un hefyd yn meddwl tybed sut y byddai Cymru'n gallu **cynnal ei hun yn ariannol** gyda'r trefniant hwn ac a allai'r wlad fod yn waeth ei byd yn y pen draw. Pe bai Cymru a'r rhanbarthau'n dal i gael rhywfaint o gyllid canolog, lleisiwyd pryder o bryd i'w gilydd na fyddai Cymru'n cael ei chyfran deg, gyda Lloegr yn dominyddu rhannau eraill o'r strwythur ffederal. Mynegwyd pryder pellach yn gysylltiedig â chyllid ymhlith y rhai a oedd yn byw ger y ffin â Lloegr: beth fyddai'n digwydd i ddarpariaeth gofal iechyd o ystyried y ddibyniaeth bresennol mewn rhai lleoedd ar ysbytai yn Lloegr?

*Sut fyddai'r arian yn cael ei rannu rhwng yr ardaloedd mwy a llai? Bydd fformiwla arall eto, felly dyna pam rwy'n meddwl ei fod yn annheg. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Rhondda)*

Roedd y disgwyl y byddai cymhlethdodau'n ymestyn i'r potensial ar gyfer **dryswch** gan y byddai gan wahanol ranbarthau rai deddfau neu bolisïau gwahanol. Daeth rhai i'r casgliad bod y DU yn **rhy fach** i deilyngu ceisio sefydlu strwythur ffederal o'i gymharu â gwledydd a oedd eisoes â strwythur o'r fath.

***Ni fyddai Lloegr a gwledydd eraill yn dymuno hynny***

Roedd yr anfantais hon, ynghyd â'r un uchod, yn allweddol i benderfyniad y rhan fwyaf o gyfranogwyr a ddaeth i'r casgliad na ellid byth cyflawni strwythur ffederal. Roedd rhai'n argyhoeddedig na fyddai'r trefniant hwn yn gweithio oherwydd ei fod yn dibynnu ar

barodrwydd Lloegr a gwledydd eraill i gytuno â newid enfawr na fyddai byth yn digwydd yn eu llygaid hwy.

> *'Gallai fod yn amhosibl yn wleidyddol i'w gyflawni.' Rwy'n teimlo bod hwnna'n hanner awr na fyddaf byth yn ei gael yn ôl, nid oedd diben o gwbl siarad am y peth oherwydd nid yw byth yn mynd i ddigwydd. . . Pe bai pob person yng Nghymru'n cyd-fynd â'r syniad, ni fyddai byth yn digwydd hyd yn oed wedyn oherwydd ei fod allan o'n dwylo ni. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Wrecsam)*

> *Roeddwn i'n anelu tuag at hyn mewn a dweud y gwir heblaw ei fod yn freuddwyd gwrach, oherwydd nes y bydd Lloegr a phawb arall, gweddill y DU, yn dweud syniad mor benigamp ydyw, nid yw'n mynd i fod yn fwy na geiriau ar y ddalen yna o bapur. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Doc Penfro)*

***Byddai'n cael effaith andwyol ar berthnasoedd â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig***

Pan soniwyd am berthnasoedd gweithio gwell fel mantais bosibl, tueddai'r cyfranogwyr i ddisgwyl y gwrthwyneb. Yn hytrach, roedd rhai'n rhagweld y byddai'r opsiwn hwn yn debygol o achosi mwy o **rwygiadau** na'r trefniadau presennol, yn enwedig pe bai sawl senedd ranbarthol ledled Lloegr a lle roedd rhaid iddynt ddod i gytundeb ar rai materion. Gan gyfeirio at y sefyllfa amserol yn UDA ynghylch cyfreithiau erthyliad, roedd rhai cyfranogwyr yn meddwl y byddai annog gwahanol ranbarthau i fod â gwahanol gyfreithiau a pholisïau'n ychwanegu at yr ymdeimlad o **rwyg** a dryswch. Roedd ambell un hefyd yn rhagweld mwy o rwygiadau, sefyllfaoedd annatrys, tiriogaetholdeb, a thrachwant wrth i wahanol ranbarthau geisio rhagori ar ei gilydd. Roedd y mathau hyn o bryderon yn adlewyrchu canfyddiadau rhai cyfranogwyr am **UDA 'camweithredol'**. Nid oedd arnynt eisiau am symud tuag at ei ffordd o lywodraethu.

> *Ond yna mae cael yr holl grwpiau hynny o faint tebyg i benderfynu ar ganlyniad ar gyfer un peth yn mynd i fod, ni fyddai byth yn digwydd. . . Byddent i gyd yn cwyno amdano, yn hytrach na meddwl am strategaethau i'w wneud yn well. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Drenewydd)*

> *Mae'n mynd i achosi rhwyg rhwng pobl yn gyfan gwbl ac nid yw ond yn mynd i achosi ffrwgwd enfawr. . . Rwy'n meddwl ei fod yn syml yn mynd i achosi mwy o ddryswch, nid yw ond yn mynd i achosi i bawb fynd mewn cyfeiriadau gwahanol os ydym yn gwahanu pethau. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Wrecsam)*

Pryderon pellach a leisiwyd yn llai mynych oedd:

- Gallai fod yn anos byth i Gymru fod â llais gyda rhanbarthau yn Lloegr yn cystadlu yn ei herbyn
- Roedd gormod o bethau anhysbys ynglŷn â'r hyn fyddai'n cael ei reoli gan y llywodraeth ganolog. Felly, roedd yn anodd bod ag unrhyw hyder yn yr opsiwn hwn.


## 7. Barn ynglŷn ag annibyniaeth

Y trydydd opsiwn a drafodwyd gyda'r cyfranogwyr oedd **annibyniaeth** i Gymru, a ddisgrifir yn y bennod hon. Defnyddiwyd yr un dull ag ar gyfer y ddau opsiwn cyntaf o ran sut yr aeth y drafodaeth rhagddi. Fe'i crynhowyd ar gyfer cyfranogwyr fel a ganlyn, ynghyd â'r animeiddiad fideo a oedd yn rhoi rhagor o fanylion.

**Annibyniaeth**

Mae hyn yn golygu bod Cymru'n dod yn wlad annibynnol. Byddai Cymru'n gwneud ei holl reolau a'i chyfreithiau ei hun, yn casglu trethi ac yn rheoli ei harian ei hun.
Byddai Cymru'n cymryd cyfrifoldeb am bob mater ariannol ac ni fyddai'n dibynnu ar gefnogaeth Llywodraeth y DU.

### 7.1 Trosolwg




Mae Tabl 3 dros y dudalen yn cwmpasu manteision ac anfanteision posibl annibyniaeth i Gymru y canolbwyntiodd cyfranogwyr arnynt wrth drafod rhinweddau neu ddiffygion yr opsiwn hwn. Mae'r ffactorau wedi'u trefnu'n fras yn ôl cyffredinrwydd ac amlygir y themâu mwyaf blaenllaw mewn inc trwm.

Canfu'r cam wyneb-yn-wyneb terfynol hwn fod polisïau wedi'u teilwra i Gymru'n un o brif fanteision canfyddedig annibyniaeth. Roedd y broses ystyriol yn golygu bod llawer iawn o ffocws wedi bod ar gyllid ac fe gyfeiriwyd at hyn hyn ymhlith y manteision posibl gyda rhai sylwadau mwy cynnil nag a wnaed yng nghamau cynharach yr ymchwil. Fodd bynnag, roedd yr adborth yn nodi bod materion cyllid a chymhlethdodau fel materion trawsffiniol yn rhwystrau sylweddol i annibyniaeth.

**Tabl 3**

| Annibyniaeth: manteision posibl | Annibyniaeth: anfanteision posibl |
|---|---|
| **Byddai'n golygu rheolaeth lawn dros benderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru a pholisïau wedi'u teilwra i Gymru** | **Ni fyddai Cymru'n gallu ariannu ei hun ac mae'n rhy fach i fod yn annibynnol** |
| **Byddai'n golygu y gallai Cymru wneud cais i ailymuno â'r UE** | **Byddai'n rhy gymhleth i'w sefydlu e.e. byddai Cymru'n wynebu heriau sylweddol gyda materion trawsffiniol fel arian cyfred, amddiffyn, mewnfudo ac allforion** |
| **Gallai Cymru ymdopi'n ariannol pe bai'n annibynnol - byddai'n annog Cymru i dyfu, bod yn fwy arloesol a blaengar** | **Byddai'n ormod o risg a byddai gormod o bethau anhysbys (e.e. o ran cyllid a safon gwleidyddion i'w gyflawni)** |
| **Mae gwledydd bychain eraill yn llwyddo i fod yn annibynnol** | Byddai'n debygol o achosi rhwygiadau pellach rhwng llywodraethau |
| Ni fyddai unrhyw ddryswch ynghylch cyfrifoldebau ac atebolrwydd y llywodraeth | Byddai ymuno â'r UE yn cyfyngu ar bwerau datganoledig ac yn dal i olygu dilyn deddfau Ewropeaidd |
| Byddai'n cryfhau hunaniaeth, diwylliant, proffil a statws rhyngwladol Cymru | |
| Byddai Dydd Gŵyl Dewi yn Ŵyl y Banc | |

Sylwer: mae'r themâu mwy blaenllaw a leisiwyd mewn inc trwm.

Cyn trafod y manteision a'r anfanteision posibl a gafodd eu hamlygu, mae'n werth nodi bod cyfranogwyr weithiau'n ymateb gan ddweud eu bod yn **hoffi sut yr oedd annibyniaeth a'r manteision posibl a ddangoswyd iddynt yn swnio** ond na allent weld sut y gellid eu cyflawni'n ymarferol. Roedd hyn hefyd yn wir am ychydig o gyfranogwyr nad oedd ganddynt fawr o ffydd yng ngwleidyddion Cymru ar draws y gwahanol bleidiau.

> *Wel mae'n rhestr o ddymuniadau, onid yw [yn y manteision posibl cynorthwyol]? Nid oes unrhyw beth na fyddai arnoch ei eisiau yno, a bod yn onest, pan ydynt wedi'u hysgrifennu fel yna. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Drenewydd)*

> *Dydyn ni ddim yn ddigon cryf, alla i ddim gweld llawer o arian yn dod o Gymru a bod yn onest. . . Dydw i ddim yn credu y byddai'n gweithio. Byddai'n braf, byddai'n braf iawn. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Wrecsam)*

Fodd bynnag, daeth rhai i'r casgliad y gellid cyflawni annibyniaeth trwy **gamau cynyddrannol dros amser**, er enghraifft gan ddechrau trwy atgyfnerthu datganoli. Efallai na fyddent yn gweld hynny yn ystod eu hoes hwy, teimlai rhai, ond fe hoffent weld eu plant yn byw mewn gwlad yr oeddent hwy'n rhagweld y gallai fod yn Gymru decach. Roedd cydnabyddiaeth hefyd ymhlith y rhai a oedd â diddordeb yn yr opsiwn hwn y byddai'r cyfnod pontio'n 'anodd iawn' ond gellid dysgu gwersi o Iwerddon, ychwanegodd un cyfranogwr.

> *Rydych chi'n adeiladu eich ffordd i fyny yno yn gyntaf. Byddech chi'n dechrau â beth bynnag oedd yr enw ar yr un cyntaf hwnnw ac yna'n adeiladu eich ffordd i fyny ac yna os [yw'n gweithio], dyna pryd yr ydych yn tynnu'r olwynion bach i ffwrdd ac yn rhoi cynnig arni. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Wrecsam)*

*Y rheswm pam fy mod i’n meddwl bod arnaf eisiau hyn yw oherwydd bod gen i blant, mae arnaf eisiau Cymru well iddynt hwy ac os ydynt hwy’n mynd i fod yn magu eu teuluoedd byddai'n well pe baent yn cael mwy o chwarae teg. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Rhondda)*

Mewn cyferbyniad, dywedodd rhai fod yr anfanteision posibl, erbyn meddwl, yn **llawer mwy perswadiol** na'r manteision posibl. Nid oedd yn ymddangos bod angen digon sylweddol i gyfiawnhau annibyniaeth ac roedd **gormod o faterion cyfoes eraill** i ymdrin â hwy a oedd yn fwy o flaenoriaeth.

*Y neges y mae pob un [o’r anfanteision posibl] yn ei rhoi i mi yw na ddylid ei wneud. Peidiwch â’i wneud, da chi. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Wrecsam)*

### 7.2 Manteision a oedd yn sefyll allan i gyfranogwyr gydag annibyniaeth

***Rheolaeth lawn dros benderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru***
Roedd cyfranogwyr a oedd o blaid yr opsiwn hwn yn cael eu denu at y budd posibl y gallai Cymru fod â mwy o hyblygrwydd i gyflwyno polisïau wedi'u **teilwra'n benodol i anghenion y genedl** ac i benderfynu sut y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu hariannu - a'u darparu - heb gael eu peryglu gan unrhyw ddylanwad gan Lywodraeth y DU. I nifer fach o gyfranogwyr, roedd ymateb Cymru i'r pandemig wedi dangos sut yr oedd Cymru'n gofalu am ei phobl tra bod Lloegr i’w gweld fel pe bai'n poeni mwy am arian (ond roedd rhai cyfranogwyr yn anghytuno â'r safbwynt hwn).

*Dwi'n meddwl bod o jyst yn gyfle da i Gymru gallu cael y Cymru dan ni isio, dim be dan ni 'di gorfod cael. Dwi'm yn meddwl bod Cymru erioed 'di voteio am Conservative government, ond Conservative governments dan ni 'di cael y rhan fwya' o'r amser. Dan ni'm yn cael cyfle i adeiladu ar ein economi ni achos mae San Steffan yn rhwystro ni rhag neud rhai penderfyniadau. Fatha Airport Caerdydd, dwi'n meddwl oedden nhw isio lleihau y dreth maen nhw'n rhoi ar airlines, wedyn 'naeth San Steffan ddeud, ‘Na, dach chi'm yn cael’. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Y Rhondda)*

*Mae hunanbenderfyniaeth yn bwysig oherwydd bydd pobl Cymru’n gallu gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy’n benodol ac nid bod yn wystlon ffawd i Lywodraeth y DU. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Aberystwyth)*

*Rwy'n meddwl mai annibyniaeth yw'r unig un sydd â'r potensial i fynd mor bell â newid y wlad er gwell. Rwy'n meddwl bod y ddau opsiwn arall ychydig yn fwy o'r un peth nad yw'n gweithio, yn amlwg. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Fenni)*

Hefyd, nid oedd yn gwneud synnwyr i gwpl o gyfranogwyr pam y byddai gwlad yn fodlon i **wlad arall** feddu ar bwerau gwneud penderfyniadau terfynol drosti yn hytrach na gallu gwneud ei phenderfyniadau ei hun.

*Pam ddylai gwlad arall gael y final say am be sy'n digwydd yn y wlad yma? 'Sa 'na'm un wlad arall yn y byd isio neud hynna, felly dwi'm yn deall meddylfryd rhai pobl o Gymru sydd isio San Steffan gael y final say. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Caernarfon)*

Gan gymryd pwnc heriol **y GIG** a godwyd yn aml, dadleuodd un grŵp y gallai Cymru annibynnol ailwampio'r GIG yn fwy effeithiol gan bod rhaid iddi weithio o fewn system Lloegr ar hyn o bryd gyda rhai gwasanaethau'n cael eu darparu dros y ffin. Gallai hyn gynnwys ystyried sut y mae'r system iechyd yn gweithio yn Iwerddon.

*Gallem newid model y GIG yn haws a'i wneud yn llawer llai biwrocrataidd a phendrwm o ran rheolwyr, rhywbeth y gallem ei wneud yn awr ond yr anhawster yw ein bod yn dal i orfod gweithio o fewn system Lloegr wrth ei wneud ar y cyfan. . . Neu fe allem edrych ar rywbeth fel model Iwerddon sef bod y rhai sy'n gallu fforddio talu ychydig yn talu ychydig, tra bod y rhai na allant fforddio talu'n cael y cyfan am ddim. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Drenewydd)*

Mynegwyd cred weithiau, yn y tymor byr a'r tymor canolig, y byddai'n her eithriadol rhoi hyn ar waith ac yn eithriadol o gostus, gydag ambell un o'r cyfranogwyr yn nodi profiadau Iwerddon fel enghraifft. Fodd bynnag, roeddent yn teimlo, yn y **tymor hir**, y byddai Cymru'n gallu gwneud penderfyniadau gwell i'r genedl a'i chefnogi ei hun.

Gwnaed y pwynt hefyd bod newidiadau i **etholaethau yng Nghymru** yn golygu y byddai gan Gymru lai o lais yn San Steffan gyda'r lleihad arfaethedig yn nifer yr ASau o Gymru dan y drefn bresennol; felly annibyniaeth oedd yr unig ddewis arall go iawn.

***Byddai'n golygu y gallai Cymru wneud cais i ailymuno â'r UE***

Roedd y gallu i Gymru **wneud cais i ailymuno â'r UE** yn bosibilrwydd deniadol i rai cyfranogwyr, pe bai Cymru'n dod yn annibynnol. Er enghraifft, byddai o fudd i Gymru am resymau economaidd a byddai potensial i fabwysiadu'r Ewro fel arian cyfred. Byddai Cymru, pwysleisiodd rhai, hefyd yn rhydd i **sicrhau ei chytundebau ei hun** i ymdrin â chwestiynau fel rheoli amddiffyn (e.e. bod yn rhan o NATO).

***Gallai Cymru ymdopi'n ariannol***

Roedd rhai'n dadlau y byddai Cymru'n **gallu codi refeniw** trwy amryw ddulliau megis ei hadnoddau naturiol, ynni adnewyddadwy, gyda hawliau Ystâd y Goron yng Nghymru'n cael eu datganoli a thrwy fenthyca. Yn ogystal â thrafod cytundebau masnach ryngwladol newydd, efallai y byddai Cymru hefyd yn gallu dilyn esiampl rhai gwledydd eraill a gostwng treth gorfforaeth i ddenu busnesau i sefydlu yno, neu ddatblygu gwell cynigion busnes ar gyfer mewnfuddsoddi tramor yn y wlad. Fodd bynnag, gofynnwyd y cwestiwn ynglŷn â beth oedd yn atal Cymru rhag gwneud hynny yn awr.

*Gallem wneud yr hyn y mae Llundain wedi'i wneud ac argraffu ein bondiau ein hunain a'u prynu ac ailwampio'r arian cyfred a'i bwmpio i gyd y ffordd honno, felly byddai arnom ddyled enfawr i ni'n hunain yn union fel y mae Llundain yn ei wneud. Felly fe allen ni fod yn gyfoethocach. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Drenewydd)*

*Os ti'n mynd i fod yn dropio corporation tax rate chdi yn is na be fysa fo yng ngwledydd eraill, mae hwnna'n mynd i enticio cwmnïau mawr i ddod i Gymru. So mae pres chdi'n dod o fan'na. 'Di pres chdi'm jyst yn dod o gyflog chdi. Mae pres chdi'n dod o bethau sy'n cael eu stopio ar y funud gan y DU. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Caernarfon)*

Roedd ambell un yn credu bod **amddiffyn** ac **arian cyfred** yn heriau sylweddol, ond y byddai Cymru'n dod o hyd i ateb. Gallai ddod i ryw drefniant gyda Lloegr dros arian cyfred a defnyddio'r bunt, er enghraifft, neu efallai symud i'r Ewro yn y pen draw pe bai Cymru'n llwyddo i ailymuno â'r UE.

Nododd ambell un nad oeddent **yn meddwl bod Fformiwla Barnett yn deg** ac y gallai Cymru wneud yn well yn ariannol ar ei phen ei hun pe bai'n cael ei rhyddhau o gyfyngiadau canfyddedig y fformiwla. Yn ôl un cyfranogwr, roedd sawl astudiaeth wedi dynodi bod annibyniaeth i Gymru'n ariannol ddichonadwy. Cyfeiriodd y cyfranogwr hwn at yr Athro John Ball, cyn-ddarlithydd ym Mhrifysgol Abertawe.

*Os ydym yn aros ble rydym nawr, ni allwn byth symud ymlaen oherwydd ni fydd y cap hwnnw'n newid. Nid yw ein poblogaeth yn tyfu felly ni fydd [Fformiwla Barnett] yn newid. Mae annibyniaeth yn golygu bod gennym y cyfle i dyfu ein diwydiant. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Fenni)*

Hefyd, byddai annibyniaeth yn annog Cymru i fod â mwy o **ffocws ar dwf ac i fod yn arloesol** wrth wneud i annibyniaeth weithio i'r genedl, ychwanegodd rhai. Gallai gwledydd llai hefyd fod yn fwy ystwyth a chyflawni pethau'n gyflymach, dadleuodd un cyfranogwr, er enghraifft wrth ddilyn polisïau cynhyrchu ynni gwyrdd. Roedd ambell un yn teimlo na fyddai'r ddau opsiwn arall a oedd yn cael eu trafod yn cynnig yr un potensial i Gymru arloesi, tyfu a ffynnu, er bod annibyniaeth yn dal i gael ei chydnabod ar adegau'n opsiwn a oedd yn dwyn risgiau yn ei sgîl.

*Bydd yn annog twf a dyfeisgarwch a'r holl bethau cadarnhaol hynny. . . Rwy'n meddwl y byddai'n rhoi'r frwydr honno yn ein Llywodraeth Cymru ac yn rhoi rhywbeth iddynt ei brofi. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Rhondda)*

*Mae ein system ddatganoli ers '99 wedi ein cadw yn ôl yn fy marn i ac os arhoswn gyda system ffederal neu ddatganoli bydd bob amser yn ein cadw ar lwybr cyson o ddirywiad. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Fenni)*

Roedd rhai o'r dadleuon a ddefnyddiwyd uchod yn eithaf cymhellol i nifer fach o gyfranogwyr nad oeddent wedi dewis yr opsiwn hwn. Fodd bynnag, nid oedd ambell un a oedd yn cael bod cysyniad annibyniaeth yn eithaf perswadiol wedi'u hargyhoeddi'n llwyr oherwydd **pryderon ynghylch ansawdd gwleidyddion** a'u gallu i gyflawni a gwneud annibyniaeth yn llwyddiant.

***Mae gwledydd bychain eraill yn dod i ben â phethau***

Roedd rhai cyfranogwyr yn dadlau bod sawl gwlad annibynnol yn Ewrop yn llai na Chymru a bod eu Cynnyrch Domestig Gros yn llai. Roedd gwledydd eraill hefyd i'w gweld fel pe baent yn **rheoli eu ffiniau'n** ddigon da. Fel a amlygwyd uchod, byddai Cymru'n gallu **trefnu cytundebau i** helpu i'w chefnogi ei hun. Felly roedd yn ymddangos yn berffaith bosibl y gallai Cymru lwyddo i fod yn annibynnol, gydag Iwerddon weithiau'n cael ei defnyddio fel enghraifft o'r hyn y gellir ei gyflawni dros amser. Cyfeiriwyd hefyd at sut y mae Gwlad yr Iâ yn dod i ben â phethau yn hyn o beth, fel cenedl fach.

> *Does dim byddin 'da Iceland. 'Naethon nhw gael gwared arno fe 200 mlynedd yn ôl, fi'n credu. Ac maen nhw jyst yn dod o dan yr EU, ac wedyn mae NATO wedyn, sydd yn amddiffyn. So does dim angen rili. A hefyd achos ni'n rhannu arfordir 'da Lloegr, be bynnag sy'n digwydd i ni, mae'n mynd i effeithio nhw. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Y Rhondda)*

***Eglurder ynghylch cyfrifoldebau***

Roedd rhai'n teimlo y byddai rheolaeth lawn ar benderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru'n golygu **eglurder ynghylch cyfrifoldebau** oherwydd na fyddai Llywodraeth Cymru'n gallu beio Llywodraeth y DU am ei hanallu i fynd i'r afael â'r materion yng Nghymru'n ddigonol.

> *Byddai gennych un criw o bobl wrth y llyw, ni fyddai unrhyw un yn gallu bwrw'r cyfrifoldeb. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Aberystwyth)*

***Cryfhau hunaniaeth, diwylliant, proffil a statws rhyngwladol Cymru***

Roedd rhai cyfranogwyr yn credu y byddai annibyniaeth hefyd yn dwyn manteision llai pendant. Er enghraifft, gallai alluogi diwylliant, iaith a phroffil Cymru i ffynnu. Gallai hefyd roi mwy o amlygrwydd i'r genedl ar y llwyfan rhyngwladol ac efallai arwain at fwy o 'barch' gan wledydd eraill tuag at Gymru.

> *'San ni'n gallu cael cysylltiadau hefo gwledydd eraill. Ar hyn o bryd dan ni yn dechrau dod ymlaen hefo global recognition a phethau. Ond 'sa fo'n rhoi y cyfle i ni fedru mynd ar y world stage. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Y Rhondda)*

## 7.3 Anfanteision a oedd yn sefyll allan i gyfranogwyr gydag annibyniaeth

Nododd rhai cyfranogwyr fod yr anfanteision posibl a ddangoswyd iddynt fel rhan o'r wybodaeth gynorthwyol yn edrych fel **anfanteision go iawn** tra nad oedd y manteision posibl mor bendant. Hefyd, weithiau dygwyd cymariaethau rhwng heriau **gadael yr UE a dod yn annibynnol**, gyda mwy o bryderon na manteision yn cael eu lleisio. Gwnaed y pwynt hefyd na fyddai Llywodraeth y DU **byth yn caniatáu hynny** felly y byddai annibyniaeth yn syml yn methu digwydd.

> *Maen nhw'n fwy realistig na'r manteision. Mae'r manteision yn rhai mewn byd delfrydol, pe bai digon o gyllid ac ie, gallwch ddadlau y byddai manteision. Mae'r rhain yn real, yr anfanteision . . . Mae'n dweud y 'gallai' arwain at hyn a'r llall, nid yw'n dweud y byddai'n arwain at hynny, yw e? [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Caerdydd)*

*Dydi hyn ddim yn mynd i ddigwydd. Sbïwch be sy'n digwydd yn Scotland ers blynyddoedd. Maen nhw isio vote arall rŵan. 'Dyn nhw methu cael o. A mae'r Alban dwi'n meddwl mewn well position na Chymru i fynd am annibyniaeth. Mae o'n fwy o wlad, boblogaeth fwy. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Caernarfon)*

***Ni fyddai Cymru'n gallu ei fforddio***

Y rhwystr allweddol yr oedd cyfranogwyr yn ei gysylltu ag annibyniaeth oedd y byddai Cymru'n **methu ag ariannu hynny**. Roedd gormod o bethau anhysbys ac roedd amheuon cryf a fyddai Cymru'n gallu fforddio talu budd-daliadau a phensiynau. Nid oedd llawer o frwdfrydedd dros **gynyddu trethi** yng Nghymru na thros y tebygolrwydd y byddai'r wlad yn ysgwyddo mwy o ddyled i fynd tuag at y bwlch cyllido, o ystyried yr **argyfwng costau byw**. Roedd cwpl o gyfranogwyr hefyd yn tybio y byddai Cymru'n ysgwyddo cyfran o ddyled y DU a fyddai'n ychwanegu at amgylchiadau sydd eisoes yn heriol. Gwell bod yn rhan o economi fwy o lawer y DU, oedd casgliad ychydig o gyfranogwyr.

*Mae'n fy mhoeni nad oes gennym ddigon o gyllid ac maen nhw'n mynd i breifateiddio'r GIG a phresgripsiynau a phethau felly. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Doc Penfro)*

*Fyddai dim byd yn well gen i na Chymru rydd fel y cyfryw ond a bod yn realistig, ni allwn ei fforddio. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Caerdydd)*

*Faint o bobl fyddai'n eu gwthio i fwy o dlodi? Mae digon o bobl yn ei chael hi'n anodd goroesi ar hyn o bryd, dim mwy o bobl. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Aberystwyth)*

Yn gysylltiedig â'r ddadl hon, roedd Cymru'n gyson yn cael ei hystyried yn **rhy fach** a oedd yn golygu nad oedd digon o arian yn cael ei godi trwy drethi a bod dim digon o ddiwydiant. Y 'fersiwn Gymreig o Brexit' fyddai yn ôl casgliad negyddol un cyfranogwr.

*Rwy'n meddwl mewn egwyddor ei fod yn syniad da ond rwy'n meddwl ei fod yn mynd yn ôl at y ffaith bod Cymru, rydyn ni'n syml yn rhy fach i fod yn annibynnol. . . Does dim digon o bobl yma o ran trethi, does dim diwydiant a masnach felly wn i ddim sut y bydden nhw'n hunangynhaliol o ran cynhyrchu cyllid ac ati. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Caerdydd)*

Roedd y posibilrwydd y byddai Cymru 'ar ei phen ei hun' am flynyddoedd lawer heb unrhyw gymorth yn **frawychus** i ychydig o gyfranogwyr hefyd, ac fe'u hatgoffwyd am faterion canfyddedig a ddeilliodd o ymadawiad y DU â'r UE.

O bryd i'w gilydd, roedd cyfranogwyr yn pryderu sut y byddai Cymru'n gallu **ariannu ei threfniadau amddiffyn** pe bai'n dod yn annibynnol; ac fe fynegwyd amheuon o bryd i'w gilydd a fyddai Cymru'n gymwys i ymuno â NATO. Ar ben hynny, o safbwynt economaidd, roedd pryderon ynghylch pa mor effeithiol fyddai Cymru'n gallu **trafod ei chytundebau masnach ei hun**. Ni oedd cyfranogwyr yn meddwl bod y wlad mewn sefyllfa gref iawn ac nid oeddent yn meddwl bod ganddi ryw lawer i'w gynnig.

***Byddai'n rhy gymhleth i'w sefydlu***

Dywedodd rhai fod y **cymhlethdodau**, **y fiwrocratiaeth** a'r costau cysylltiedig a fyddai'n deillio pe bai Cymru'n dod yn wlad annibynnol yn golygu na ellid cyfiawnhau'r newid. Nodwyd cymhlethdodau gyda **ffiniau**, gydag ychydig yn ychwanegu bod y sefyllfa barhaus gyda'r ffin yn Iwerddon a'r UE yn edrych fel rhywbeth i'w osgoi. Gallai Lloegr hefyd ei gwneud yn ddrutach ar gyfer nwyddau a fyddai'n cael eu cludo dros ei ffin i Gymru; a byddai angen i'r wlad ddatblygu maes awyr mwy a fyddai'n fwy costus, rhagwelai un cyfranogwr. Codwyd heriau o ran **arian cyfred** a threfnu **amddiffyn** hefyd.

> *Nes i bleidleisio i aros yn Ewrop, ond faint o gymhleth 'sa fo os 'sa Cymru yn Ewrop a Lloegr ddim? Mae hynna jyst yn amhosib. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Caernarfon)*

> *Gallwch weld y materion yng Ngogledd Iwerddon ac Iwerddon, yn drawsffiniol o ran y problemau mawr gyda'r ffurflenni ychwanegol nawr bod un yn yr UE, a'r llall ddim yn yr UE, mae'n syml yn hunllef, onid ydyw? [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Caerdydd)*

Mynegwyd pryder hefyd ynghylch **mynediad at ofal iechyd** mewn rhai rhannau o Gymru lle'r oedd yn rhaid i ddinasyddion Cymru fynychu ysbytai yn Lloegr ar hyn o bryd. Roedd disgwyl y byddai angen cytundebau newydd rhwng llywodraethau er mwyn i'r trefniadau hyn barhau.

> *Ni allwch gael ysbyty'r galon arbenigol enfawr yng nghanol cefn gwlad canolbarth Cymru oherwydd ni fyddai digon o gwsmeriaid. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Aberystwyth)*

Hefyd, fel a nododd nifer fach o gyfranogwyr, nid oedd **unrhyw sicrwydd y byddai cais Cymru i ailymuno â'r UE** yn cael ei dderbyn, pe bai'n mynd i lawr y llwybr hwn.

***Byddai'n ormod o risg***

Achosodd cyfuniad o ffactorau amrywiol i rai ddod i'r casgliad y byddai annibyniaeth yn **ormod o risg** i Gymru ei hysgwyddo, yn enwedig mewn perthynas â chyllido a dioddef y 'boen' a fyddai'n deillio o gyflawni'r manteision posibl yn y tymor hwy. Hefyd, roedd rhai'n credu bod **gormod o bethau anhysbys** o ran sut y byddai Cymru'n edrych i fod â hyder yn yr opsiwn. Ailadroddodd ambell un y materion canfyddedig gyda **Brexit** er gwaethaf safbwyntiau a fynegwyd mewn rhai cylchoedd cyn y refferendwm y byddai'r newid hwnnw o fudd sylweddol i'r DU. Risg arall a amlygwyd mewn un achos oedd y gallai Cymru **golli pobl ifanc** a fyddai'n chwilio am well cyfleoedd yn Lloegr neu rywle arall pe na bai annibyniaeth yn gweithio.

> *Ond y peth ynglŷn â dod yn annibynnol yw y gallwch chi gael pethau fel yr hoffech eu cael ond bod risg y byddwch yn gwneud llanast o hynny. . . Os bydd Cymru'n gwneud llanast, ni fydd y DU yno i'w hachub. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Drenewydd)*

*Risky. Dwi'n credu gwelais i ffigwr, pob blwyddyn bydde jyst shortfall o rywbeth fel 13 billion, beth oedd rhaid i ni ffeindio. Mae'n huge. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Y Rhondda)*

Mewn cwpl o achosion, pwysleisiodd cyfranogwyr eu **diffyg ymddiriedaeth mewn gwleidyddion** i allu cyflawni a rhedeg Cymru annibynnol yn llwyddiannus.

***Byddai'n debygol o achosi rhwygiadau pellach rhwng llywodraethau***


Roedd rhai'n rhagweld y byddai'r opsiwn hwn yn debygol o **achosi mwy o rwygiadau** na'r trefniadau presennol. I gyflwyno eu hachos, amlygodd ambell un yr Alban fel enghraifft o berthnasoedd gwael parhaus neu hyd yn oed berthnasoedd sy'n gwaethygu lle mae gan wlad ddatganoledig fwy o bŵer. Teimlid weithiau hefyd y byddai Cymru'n dal i fethu â negodi o sefyllfa gyfartal â gweddill y DU oherwydd maint a goruchafiaeth Lloegr.

*Rwy'n credu y byddai'n difetha ein perthynas â nhw. Edrychwch ar Loegr a'r Alban ac nid oes perthynas rhyngddynt mewn gwirionedd. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Drenewydd)*

***Pwerau'n dal i fod yn gyfyngedig pe ailymunid â'r UE***

Yn ôl nifer fach o gyfranogwyr, byddai ailymuno â'r UE yn dal i olygu bod yn rhaid i Gymru ddilyn deddfau a pholisïau a nodir gan yr UE ac felly y byddai cyfyngiadau yn hyn o beth.

## 8. Opsiynau eraill yn lle’r tri a drafodwyd




O bryd i'w gilydd, cynigiodd y cyfranogwyr opsiynau eraill ar gyfer sut y gellid rhedeg Cymru yn y dyfodol, am nifer o resymau. Dadleuodd ambell un y byddai’r tri opsiwn a ffefrir gan y Comisiwn i gyd yn golygu cost na ellid ei chyfiawnhau o dan yr amgylchiadau presennol ac y byddai mynd ar drywydd y rhain yn **wastraff adnoddau**.

Hyd nes y byddai'n gwbl glir **sut y byddai'r gwahanol opsiynau i Gymru’n cael eu hariannu**, roedd hi'n anodd i ambell un o'r cyfranogwyr ddod i gasgliad ar yr hyn fyddai orau i Gymru.

Roedd cyfran hefyd yn dal i fod o’r farn **nad oedd ganddynt yr hyder mewn gwleidyddion** i gyflawni newidiadau o'r fath yn effeithiol.


***Llai o bwerau i Gymru / diddymu Senedd Cymru***




Roedd yn well gan rai y cysyniad o Deyrnas Unedig ac **ni allent weld pam fod angen i Gymru fod yn wahanol** i rannau eraill o'r DU. Roedd y cyfranogwyr hyn yn dadlau **nad oedd tystiolaeth glir o unrhyw fudd** sy’n deillio o fod â’r haen ychwanegol o lywodraeth yng Nghymru ac mai dychwelyd i Lywodraeth y DU fyddai'r opsiwn â’r lleiaf o risg. Gallai hefyd arbed arian oherwydd y byddai'n cael gwared ar y fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig ag un haen o lywodraeth, ychwanegodd rhai o gynigwyr y dewis arall hwn.

Roedd rhai’n credu y **byddai cyfreithiau’n gliriach** gan na fyddai unrhyw wahaniaethau fel y rheiny yr oedd rhai wedi tynnu sylw atynt mewn perthynas â threfniadau'r pandemig. Byddai hefyd yn cael gwared ar y berthynas weithio anodd ganfyddedig y credid ei bod yn bodoli rhwng y ddwy lywodraeth.

***Cynnal y sefyllfa fel y mae***




Roedd cynnal y sefyllfa fel y mae’n ddewis arall a gyflwynwyd ar brydiau. Roedd y cyfranogwyr hyn yn credu bod **gan Gymru ddigon o bwerau fel y mae** a naill ai nad oedd yn gwneud yn rhy wael neu y dylai fod yn gwneud yn well. Roedd rhai hefyd yn meddwl y byddai Cymru'n cael trafferth dygymod gyda phwerau pellach, yn ariannol ac o ran bod â gwleidyddion a allai eu cyflawni'n effeithiol. Roedd ambell un yn teimlo bod angen i'r llwch ar ôl Brexit a'r pandemig setlo cyn ystyried strwythurau amgen. Roedd pryder hefyd y gallai newid o'r sefyllfa fel y mae arwain at **fwy o rwygiadau** rhwng llywodraethau.

## 9. Sut i gynnwys ac ymgysylltu’n fwy â'r cyhoedd

### 9.1 Cynyddu ymgysylltiad

Mae llai na hanner (43%) yn teimlo’u bod wedi gweld neu glywed llawer am sut y mae Cymru’n cael ei rhedeg yn y 12 mis diwethaf

Lle’r oedd amser, gofynnwyd i'r cyfranogwyr yn fyr am unrhyw feddyliau a oedd ganddynt ynglŷn â sut y gallai'r Comisiwn barhau i gynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu'n effeithiol â hwy ynghylch cyfansoddiad Cymru. Roedd yr awgrymiadau’n cynnwys:

- Ymgysylltu’n fwy ag **ysgolion** fel y gall pobl ifanc fod yn fwy gwybodus am y pwnc a sicrhau ei fod yn y cwricwlwm. Hefyd, gwneud yn siŵr eu bod yn dod yn fwy ymwybodol bod y pwnc hwn yn effeithio ar eu dyfodol

  *Wel lle da i ddechrau, nawr eu bod nhw wedi gostwng yr oedran pleidleisio i 16, fyddai'r ysgol. . . Mae angen iddynt deimlo bod iddynt fudd ynddo fel rhan o'u dyfodol. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Doc Penfro)*

  *Rwy'n meddwl bod gwleidyddiaeth, o safbwynt pobl ifanc, mae'n rhyw fath o gael ei gweld fel criw o hen bobl yn dadlau mewn adeilad. . . . Nid yw'n galonogol iawn, yw e? [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Drenewydd)*

- Cynyddu ei **broffil** ei hun a **chodi ymwybyddiaeth** o'r pwnc yn gyffredinol, gan gynnwys defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol yn fwy. Gallai hyn gynnwys rhannu'r animeiddiadau am sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg yn ehangach, ymdrechu i gael mwy o sylw i Gymru yn y cyfryngau, a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn fwy

  *Y graffeg ti 'di dangos i ni, faint oedd 'na? Rhyw 10, 20 eiliad mwya'. Mae hynna'n ddigon punchy i symleiddio mwy na dogfennau a thaflenni a stwff trwy'r post, dwi'n meddwl. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Caernarfon)*

  *Wyddoch chi’r fideos hynny a ddangoswyd i ni yn y sesiwn gyntaf lle mae'n egluro pa bwerau sydd wedi'u datganoli i Gymru a hynny heb iddo fod yn wleidyddol, dim ond dweud ydoedd beth all Cymru ei wneud. Byddai'n dda iawn ei gyhoeddi fel hysbyseb genedlaethol neu rywbeth fel bod y wlad gyfan - a byddai'n syml yn annog pobl i feddwl,  o iawn, dylwn siarad gyda'm haelod Cynulliad am hynny neu fy AS. Rwy'n meddwl y byddai hynny'n dda. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Wrecsam)*

- Defnyddio enwogion, dylanwadwyr ar y cyfryngau cymdeithasol a phobl ifanc sydd eisoes yn ymwneud â gwleidyddiaeth i ennyn diddordeb ar-lein
- Mwy o gyswllt uniongyrchol wyneb-yn-wyneb rhwng gwleidyddion (lleol) a'r cyhoedd, fel bod yr olaf yn teimlo bod y gwleidyddion yn gwrando arnynt ac yn eu deall go iawn.
- Defnyddio iaith mor syml â phosibl
- Sicrhau bod yr holl wybodaeth yn dod drosodd fel gwybodaeth niwtral ac nad yw'n gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol yn y llywodraeth
- Dangos sut y bydd cyfraniadau i'r trafodaethau’n gwneud gwahaniaeth

*Mae llawer o bobl yn meddwl eu bod nhw'n gwastraffu eu hamser, dyna rwy’n ei ddweud achos maen nhw'n meddwl 'dydyn nhw ddim yn mynd i wrando arna i beth bynnag'. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Wrecsam)*

*Rwy'n credu ein bod wedi cael ein dysgu nad yw ein llais yn gwneud gwahaniaeth go iawn, mae'n debyg mai dyna pam nad yw llawer o bobl yn ymwneud â’r peth. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Fenni)*

### 9.2 Helpu cyfranogwyr i ddatblygu barn fwy gwybodus

Roedd dealltwriaeth y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr a’u ffordd o feddwl yn aml wedi **esblygu** o'u hymwneud cyntaf â’r broses ymchwil. Roeddent yn canolbwyntio'n bennaf ar gymhlethdodau pob opsiwn ar gyfer sut y gallai Cymru gael ei rhedeg trwy'r trafodaethau terfynol hyn, er bod cyfeiriad rheolaidd o hyd at **berfformiad y llywodraeth ar hyn o bryd** a’i pholisïau cyfredol a oedd yn parhau i liwio barn rhai cyfranogwyr ynglŷn â faint o bŵer ddylai fod gan Gymru.

Aeth rhai ymlaen i esbonio bod y cyfle i gael rhagor o wybodaeth a thrafod yr opsiynau wedi arwain at **newid mewn** meddwl  wrth i'w dealltwriaeth ddatblygu: 'cael sgwrs agor fy meddwl i setlo ar y **strwythur ffederal**' crynhoi un cyfranogwr.

O ganlyniad, gwirfoddolodd rhai fod eu barn wedi **newid neu esblygu** erbyn diwedd y drafodaeth oherwydd eu bod bellach yn fwy gwybodus ar y pwnc neu fod ganddynt ddealltwriaeth ddigonol i allu gwahaniaethu rhwng opsiynau. Roedd enghreifftiau'n cynnwys:

- Mynd o fod **heb benderfynu** i feddwl bod **datganoli wedi’i gryfhau a’i ddiogelu’n** swnio fel cymysgedd da o bŵer pellach gan barhau i fod yn gysylltiedig â'r DU. Roedd sylweddoli ei fod yn golygu na fyddai Llywodraeth y DU yn gallu gwneud newidiadau i bwerau Cymru heb gytundeb Senedd Cymru wedi dylanwadu ar ychydig hefyd i newid eu safbwynt

  *Mae'n troi fy meddwl . . . Mae rhai pwyntiau da wedi cael eu gwneud, pwyntiau da iawn ac mae'n rhoi’r gorau o ddau fyd mewn gwirionedd, onid yw, mae gennych fwy o bŵer ond rydych yn dal i fod yn gysylltiedig â'r DU sy’n bwysig iawn i mi. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Wrecsam)*

- Newid o **annibyniaeth** i **ddatganoli wedi’i gryfhau a’i ddiogelu** trwy ddarganfod mwy am yr heriau o ran cyllid ac anfanteision posibl eraill

  *Trwy COVID, nes i droi mwy a mwy at annibyniaeth. Ond o ran dod i fan'na tro diwetha', maen nhw 'di neud fi feddwl, wel, ydi'n bosib neud o? Mae o 'di newid fy meddwl i ar ôl dod i fa'ma, i fod yn onest. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Caernarfon)*

- Symud o '**rywbeth arall**' neu **ddatganoli wedi’i gryfhau a’i ddiogelu** i **strwythur ffederal** ar ôl deall sut y byddai llinellau cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir, mwy o ymreolaeth, a rhywfaint o undod o hyd o fewn y DU

- Cael bod **strwythur ffederal** yn ddeniadol i ddechrau ond yna, ar ôl ei drafod ymhellach, penderfynu ei fod yn llawer rhy anymarferol ac afrealistig

> *Rwy'n meddwl dros amser gyda'r peth ffederaliaeth, . . . Roeddwn i'n meddwl ei fod yn syniad eithaf da oherwydd yr holl bethau da yr oeddem ni i gyd yn cytuno arnynt, onid oeddem, mae'n rhestr dda. Ond mae'n gwbl anymarferol ac yn ddrud ac ni fyddai byth yn digwydd. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Drenewydd)*

- Troi eu meddwl tuag at **annibyniaeth** ar sail y posibilrwydd o allu gwneud cais i ailymuno â'r UE
- Newid **o ddatganoli wedi'i ddiogelu a'i sicrhau** i **annibyniaeth** oherwydd ei bod yn ymddangos yn y tymor mae dyna oedd yr un mwyaf effeithlon a'r un a oedd yn cynnwys y nifer lleiaf o haenau o fiwrocratiaeth (a'i fod felly'n rhatach ar y cyfan), yn ogystal â bod gan Gymru reolaeth dros ei materion ei hun.

Roedd enghreifftiau o **fwy o ymgysylltu** â'r broses yn cynnwys bod rhai o rannau olaf y drafodaeth yn llafar a bywiog iawn wrth i'r cyfranogwyr siarad o blaid yr opsiwn a ffefrir ganddynt hwy ar gyfer sut mae Cymru'n cael ei rhedeg. Roeddent yn gallu **galw ar wybodaeth a roddwyd iddynt** fel rhan o'r broses ystyriol i gyflwyno eu hachosion ac fe ganolbwyntion nhw'n fwy ar strwythur a llai ar berfformiad y llywodraeth. Roedd y rhain weithiau'n canolbwyntio ar sut y byddai newidiadau'n cael eu hariannu a pham nad oedd er budd Cymru i barhau â phethau fel y maent.

Roedd yn ddiddorol nodi bod **mwy o gryfder teimlad** yn tueddu i ddod i'r amlwg pan oedd cyfranogwyr yn cyflwyno'r achos dros annibyniaeth, o'i gymharu â sut yr oedd cyfranogwyr yn cyflwyno'r achos dros y ddau opsiwn arall.

Hefyd, roedd nifer fach o'r rhai a fynegodd feirniadaeth gref o Lywodraeth Cymru ac a barhaodd i godi materion polisi trwy gydol y broses ymchwil yn cydnabod y gallent weld manteision posibl, er enghraifft, **datganoli wedi'i gryfhau a'i ddiogelu** ond dim ond os oeddent yn gweld **tystiolaeth o bolisïau gwell** ac, yn eu llygaid hwy, gwleidyddion mwy galluog wrth y llyw. Daeth rhai i'r casgliad felly bod angen **rhagor o wybodaeth bendant arnynt o hyd** am bob un o'r opsiynau i fod yn sicr pa un os o gwbl fyddai orau i Gymru.

> *Rwy'n meddwl pe bai gennym y bobl iawn yno, yr arbenigwyr cywir, pe baem yn mynd y ffordd iawn a thros y blynyddoedd diwethaf, pe baent wedi cyflwyno pethau yr oeddwn i'n meddwl eu bod yn werth chweil, yna byddwn i'n meddwl bod hynny'n wych. Ond dydw i ddim wedi gweld hynny felly dydw i ddim yn meddwl y byddai hynny o fudd. Rwy'n teimlo bod gen i fwy o ffydd yn Senedd y DU. [Cyfieithiad Cymraeg o sylw a wnaed yn Saesneg] (Y Fenni)*

> *Does 'na'm cweit digon o gig ar yr asgwrn i bobl neud barn bendant ar unrhyw un o'r rhain ar y funud. [Sylw gwreiddiol a wnaed yn Gymraeg] (Caernarfon)*

## Atodiad

***Manteision ac anfanteision posibl ar gyfer pob opsiwn***
Defnyddiwyd y pwyntiau canlynol i ysgogi trafodaeth bellach ymhlith cyfranogwyr ar y tri opsiwn a ffefrir gan y Comisiwn.

## Opsiwn 1: Datganoli – wedi'i gryfhau a'i ddiogelu

### Manteision posibl

- Byddai'n atal Senedd a Llywodraeth y DU rhag gwneud newidiadau i bwerau Cymru heb gytundeb Senedd Cymru.
- Byddai'n darparu sylfaen fwy sefydlog ar gyfer sut mae Cymru'n cael ei rhedeg.
- Ni fyddai'n ofynnol cyflwyno newidiadau ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon na fyddai'n cael eu cefnogi gan bobl yno o bosibl.
- Gallai arwain at berthnasoedd gweithio gwell rhwng llywodraethau trwy greu trefniadau gweithio mwy strwythuredig.
- Gallai ganiatáu i Senedd a Llywodraeth Cymru wneud mwy o benderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru, er enghraifft ynghylch plismona, pe bai datganoli wedi'i gryfhau'n dod gyda rhagor o bolisïau wedi'u datganoli i Gymru.

### Anfanteision posibl

- Byddai'n lleihau gallu Senedd San Steffan i gael y gair olaf dros sut y mae pob rhan o'r Deyrnas Unedig yn cael ei redeg.
- Gallai arwain at berthnasoedd gweithio gwaeth rhwng llywodraethau oherwydd gallai fod sefyllfa annatrys rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- Byddai'n golygu na allai Llywodraeth y DU ariannu rhai pethau yng Nghymru yr oedd ar rai Cynghorau a phobl eu heisiau ond yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu gwrthwynebu, er enghraifft mewn cynlluniau trafnidiaeth.
- Byddai'n arwain at fwy o wahaniaeth cyfeiriad rhwng sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg a sut y mae gweddill y DU yn cael ei rhedeg, gan greu'r potensial ar gyfer tensiynau rhwng gwledydd y DU.
- Nid yw'n mynd yn ddigon pell.

## Opsiwn 2: Strwythur ffederal

### Manteision posibl

- Byddai'n atal Senedd a Llywodraeth y DU rhag gwneud newidiadau i bwerau Cymru heb gytundeb Senedd Cymru.
- Byddai'n egluro terfynau a chyfrifoldebau pob lefel o lywodraeth.
- Byddai'n darparu sylfaen fwy sefydlog a thryloyw ar gyfer sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg ac yn rhoi gwledydd y DU ar sail gyfartal.
- Gallai arwain at berthnasoedd gweithio gwell rhwng llywodraethau trwy greu trefniadau gweithio mwy strwythuredig.
- Gallai ganiatáu i Senedd a Llywodraeth Cymru wneud mwy o benderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru, er enghraifft ynghylch plismona.

### Anfanteision posibl

- Byddai'n gymhleth, yn mynd â llawer o amser ac yn ddrud i'w sefydlu.
- Byddai angen newidiadau mawr ar draws gwledydd eraill y DU na fyddai ar bobl yn y gwledydd hynny eu heisiau o bosibl e.e. byddai angen senedd newydd, ar wahân, ar gyfer Lloegr, neu sawl senedd ranbarthol ledled Lloegr neu fwy o bwerau i'r Cynulliad yng Ngogledd Iwerddon.
- Mae perygl o sefyllfa annatrys dros faterion pwysig fel sut i fynd i'r afael â newid hinsawdd rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraethau eraill y DU.
- Byddai'n golygu na allai Llywodraeth y DU ariannu rhai pethau yng Nghymru yr oedd ar rai Cynghorau a phobl eu heisiau ond yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu gwrthwynebu.
- Efallai y byddai'n wleidyddol amhosibl i'w gyflawni pe bai pobl yn Lloegr, er enghraifft, yn gwrthwynebu system lywodraethu ffederal ar gyfer y DU.

## Opsiwn 3: Annibyniaeth

### Manteision posibl

- Byddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd i Gymru roi polisïau ar waith sydd wedi'u teilwra'n benodol i anghenion Cymru ac i benderfynu sut y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu hariannu a'u darparu.
- Gallai arwain at well perthynas â Llywodraeth gweddill y DU, gan y byddai'r ddwy Lywodraeth yn negodi o safle cyfartal.
- Ni fyddai unrhyw ddryswch ynghylch pa Lywodraeth oedd yn gyfrifol am beth ac ni allai Llywodraeth Cymru feio'r DU am bethau nad oeddent yn gweithio.
- Byddai'n rhoi cyfle i Gymru ail-ymuno â'r UE.
- Byddai Cymru'n gallu trafod ei chytundebau masnach ei hun, a phenderfynu pa gonfensiynau rhyngwladol a chyrff rhyngwladol i ymuno â hwy.
- Byddai'n rhoi rheolaeth hirdymor i bobl yng Nghymru dros eu dyfodol.

### Anfanteision posibl

- Byddai'n gymhleth, yn mynd â llawer o amser ac yn ddrud i'w sefydlu.
- Byddai'n cynnwys penderfyniadau mawr ar bethau fel pa arian cyfred i'w ddefnyddio a pholisi mewnfudo.
- Byddai'n anodd codi digon o arian o drethi yng Nghymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus - efallai y byddai angen codi trethi neu gwtogi ar wasanaethau.
- Byddai'n anodd rhoi ffin genedlaethol yn ei lle rhwng Cymru a Lloegr heb achosi problemau a chost i fusnesau a phobl yng Nghymru - yn enwedig pe bai Cymru'n ailymuno â'r UE.
- Byddai angen i Gymru barhau i gydweithio â Lloegr a gweddill y DU ar faterion trawsffiniol fel trafnidiaeth, gyda'r posibilrwydd o ball ar wasanaethau, mewnforion ac allforion pe na bai'r gwledydd yn gallu dod i gytundeb.
- Byddai Cymru'n wladwriaeth fach ar y llwyfan byd-eang a byddai'n dal i fod dan bwysau sylweddol e.e. o farchnadoedd byd-eang, i beidio â rhoi polisïau radical ar waith ynglŷn â materion fel rheolau cyflogaeth, safonau amgylcheddol, cymhorthdal y llywodraeth i fusnesau ac yn y blaen.